

Celt 5084.1.2.0



Harvard College Library

FROM

Prof. F. N. Robinson
Cambridge



AWELON Y BRYNIAU:

SEF

CANEUON A PHRYDDESTAU


GAN

EOS BRADWEN.

PRIS CHWE'CHEINIÖG.



ARGRAPHWYD GAN W. CWENLYN EVANS, CAERNARFON.



AWELON Y BRYNIAU:

SEF

CANEUON A PHRYDDESTAU

GAN

EOS BRADWEN.




CAERNARFON:

ARGRAPHWYD GAN W. OWENLYN EVANS, SWYDDFA'R "GENINEN."

1891.

Celt 5084.1.20



Prof. E. W. Robinson.
Cambridge.

MAJ 20 1915

Y WYDDFA.

(*Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol y Wyddfa, Mai 28ain, 1891.*)

Y FEIRNIADAETH.

Y Bardd Cwsg.—Un arall o feibion y cewri. Pryddest anghyffredin ydyw hon yn ei symudiad a'i gwsg. Yr ydym yn teimlo unigedd a dyeithrwch golygfeydd mynyddig yn narluniau grymus y bardd. Dengys y gân fod yr awdwr yn dra chydna-byddus â holl gylch ei destyn. Nid gwybod enwau llynau a mynyddoedd y mae yn unig, ond disgrifia eu neillduolion gyda chywirdeb a meistrolaeth sydd yn gosod swyn a hyfrydwch ar bob llinell yn y gerdd. Wedi adolygu ac ail-ddarllen amryw o'r cynyrchion hyn, yr wyf yn cael fod y rhai canlynol yn rhagori ar eu cydymgeiswyr—"Cymro Distadl," "Pennant," "Nancolian," "Ymdeithydd," "Snowdonian," "Hedd Molwynog," a'r "Bardd Cwsg." Y mae y rhai'n yn y dosbarth cyntaf, ac ni fuaswn yn petruso rhoddi y gadair i dri neu bedwar o honynt, pe na buasai y gweddill yn y gystadleuaeth. Fel y mae, fodd bynag, nid gwaith hawdd ydyw penderfynu, a hyny oherwydd amledd eu rhagoriaethau. Mwy boddhaol fuasai estyn cadair i bob un, ond nis gall hyny fod. Felly rhaid llymhau y prawf—gwneyd y ffwrnes feirniadol yn saith boethach nag arfer, a chraffu ar fanylion sydd bron yn anweledig i'r llygad noeth! Y mae tri o honynt wedi dyfod trwy y prawf yma yn anrhydeddus, sef "Snowdonian," "Hedd Molwynog," a'r "Bardd Cwsg." Y mae "Snowdonian," eto, *y chydig* yn ysgafnach na'i gymmrodwr. Gyda'r ddau hyn y mae y beirniad yn teimlo ei fod mewn "bwlech cyfyng." Mewn swyn a melodedd, y mae "Hedd Molwynog" ar y blaen, ond mewn cryfder a gloewder disgrifiadol y mae y "Bardd Cwsg" yn well. Y mae "Hedd Molwynog" yn ddyddorol odiaeth: nid oes linell farwaidd yn y gerdd, ond yn y "Bardd Cwsg" y mae gwythien y farddoniaeth yn fwy dofn, ac yn fwy dyeithriol. Ceinder ac arddunedd y Wyddfa sydd yn y naill, ond yn y llall y mae ofnadwyaeth y ceunentydd dyfnion, uchder syfrdanol y creigiau, crechwen yr

elfenau, a gwylltineb Natur fynyddig, yn cael eu portreadu gan law meistr, a hyny yn y fath fodd nes cynyrchu iasau o arswyd a syndod yn y darlennydd. Mewn gair, y mae eiddo "Hedd Molwynog" yn fynydd uchel—yn Garnedd Llewelyn o bryddest: ond Y Wyddfa—Gwyddfa y gystadlenuaeth galed a rhagorol hon ydyw eiddo y "Bardd Cwsg," ac iddo ef boed yr anrhydedd o eistedd yn nghadair Eisteddfod y Wyddfa, dan heudwen Mai, yn y flwyddyn 1891.

"Ar air a chydwybod,"

R. D. ROWLAND (Anthropos).

Caernarfon, Mai 27, 1891.

Dynesai'r llong, daeth gorwel Cymru'n amlwg,
 A ninau'n caru mangre'i hawyr hi;
 Ond pan ddaeth pen y Wyddfa wen i'r golwg,
 Anghofiem holl ystormydd tonog li'.
 Heno drwy niwliog len cawn loer-oleuni
 I'w dringo, dros ei brwynog Helfa Fawr,
 A llwybr y Llechog, nes bo'r llon gwmpeini
 Ar dŵr Eryri cyn y toro'r wawr.
 Hawddamor lwyd adwyon minion mynydd,
 Lluest mynyddwr iach a'i lwydaidd dô—
 Goror magwrydd hen a rhawd ystormydd,—
 A'r ffrydiau'n trydar yn y grug a'r gro;
 Henffych i serth orthiroedd cwm pellenig—
 Yr hafod unos, a phlant corlan wyn,
 Yr erfawr feini, noddfa'r afr fynyddig;
 A'r praidd yn gorwedd ar eu gwely brwyn!
 Gwaelodion byd a giliant is y geulan,
 O'n blaen—grug, brwyn, a bryniau serth y sydd,
 Chwilotfan helgi, rhedfan milgi buan,
 Gweryrfan merlyn mynydd, helfa hydd.
 Yn ddiwyd, araf awn i'r gorifynu,
 Ni fyn y Wyddfa 'i dringo gyda brys;
 Siomedig nenau sy'n ei hamgylchynu,
 Ac â'r ser sieryd hi o'i huchel lys,
 I droellog heol entrych serth orlethol,—
 Drwy nyddol igam-ogam eillt yr awn,
 O gleidir glyn, i'r uwch-awelon gwybrol,
 A dringo'r gloewon risial resi wnawn

I'r nwyfre glir,—lle cwsg y lloer-belydron
 Ar nos ynsoedd niwl-for anian lwyd ;
 Y naill ar ol y llall o drumau Arfon
 A suddant, ond y Wyddfa eto gwyd.
 O'i gandryll dŵr, yr Arddu glyw'n dyfodiad,
 Swn sisial sydd ! clyw *eco* 'r Clogwyn Du !
 Rhag rhygndwrf dorau sydyn ymosodiad
 Ar hen Gaerdroia dreigiau Cymru Fu.
 O'r geillt islaw, — llais helgi niwl-golledig
 Fel o waelodion dyfna'r byd a ddaw ;
 Ac yna corn, a bloedd o helfa cwm pellenig,
 A'r gareg ateb yn ei hamdo draw.
 Llechwedd y Rhu gyrhaeddwn,—ffrydlif loew
 I fin dy lwybr a lam o'i migwyn mân ;
 Nifwl anedig ydyw hi, a hoew,
 Y dawns o'r cwmwl ac i'r cymoedd cân.
 O nerth i nerth yr awn i ben yr yrfa,
 Pendronol ddyfnder tanom ar bob tu !
 Gwel arlen wawl-gynyddol yr olygfa !
 Mae'n tori'r wawr ! hawddamor geinwawr gu !
 Mor eiddil ydyw dyn ar ael Eryri !
 Tegan y gwynt ! beth yw ei egni gwan,
 A'i byramidiau wrth anferthol feini
 Y Wyddfa fawr a'i chawr-uchelion ban !
 Rhyw fynydd cadarn ydyw pob cynnalfur
 Attegol o dan sail ei gorsedd wen,
 Clogwyn y Garnedd gwyd i balas asur
 Uwch caerau corwynt i'r daranllyd nèn.
 Mae'r Seren Ddydd yn môr y gorliw'n gwelwi,
 Godreumon Lliwedd mewn cysgodion sydd ;
 Ffy'r nos a'i ser-osgorddion dirifedi,
 Diflana'r Lleuad, wele Dad y dydd !
 O'i deryll orwel daw, mewn rhwysg a mawredd,
 Deffrowch fynyddoedd ! dwyre ddyfnder mawr !
 Drwy loew nèn gŷr fywyd a gorfoledd,
 Mesura'r entrych ! llona nef a llawr.
 Ei drem foreuol ar y Wyddfa gribog
 A deifl ei chysgod ar y llydan fôr ;
 Fel deial fawr a godai Neifion enwog,
 I rifo dyddiau creadigaeth Ior.

Brefiadau'r buch a glywir o'r gwaelodion,
 A sw'n gorfoledd gloew ddaw o'r glyn ;
 Clyw di'r clogwyni'n *eco* clir accenion !
 Llawenydd gwawr am eni boreu gwyn !
 Mae seraph bach y boreu'n ewybr wibio,
 A'i gân o'r nen yn swyn ar ben y byd :
 Ar edyn diffin daeth, mae'n hedeg heibio,
 I'r danbaid wawr ac yno cân o hyd.
 A'r Wyddfa'n awr gynhyrfa'i bro wybrenol,
 Ei horgan greigrigolawg eglur gân ;
 Dwfn seiliau'r byd a gryn i'w hanthem nerthol,
 Rhown ninau yn ei nenawr glodydd glân,—
 I'r hwn sy'n toi ei nefoedd a chymylau,—
 Wnaeth ffordd i'r eryr drwy ei hawyr hi,—
 Yr Hwn sy'n pwyso'i bryniau mewn clorianau—
 Ac a'i law'n cynal môr a'i donog li.

Drwy niwl Cwm Llan, gwel fel y mae'n ymagor
 Geunentydd dyfnion, dyrus anial ffyrdd !
 Fel pe'n dyllyfu gên y mae'r agendor,
 A thrwy'r agorfa gul ymrithia'r Gwynant gwyrd !
 Yn nghôl aruthredd cwsg y Glaslyn tywyll,
 A'r boreu'n gwel'd ei lewyrch yn ei li ;
 A'r Wyddfa erfawr ar ei phen yn sefyll,
 A ninau'n aros ar ei hysgwydd hi.
 Ac yna'r Llydaw dwfn a yf ei afon
 Yn rheieidr byw, ac o'i ddihsbydd stôr,
 Cwm Dyli er ei orlwnge yr orlifion
 I'r brysur dref, ac i'r anniwall fôr.

Ti Wyddfa wyt Ararat creig ororau,
 Gogoniant ar dy unigeddau gâf !
 Mae wybren hedd yn gorwedd ar dy gaerau,
 Ac ar dy ben arafa rhôd yr Haf.
 Disymwth ruthr y gwlaw a'r gwynt ystormus
 A'r d'ysgwydd di, anwadal yw dy nen ;
 Ac aml y gwisgi'r Gwanwyn am dy wregys,
 A'r foreu Haf, a'r Gauaf ar dy ben.

Arddunol drem ar fro fy ngenedigaeth
 O'th gopa gaf. O fel y caraf hi !

Am hyny, Arfon, yr ehed fy hiraeth
 Hyd finion dy afonydd dedwydd di.
 Dring, drefwr, dring, dros drumau llethrau Llydaw,—
 Ar gopa pinael banon rho dy droed ;
 Cei wel'd Gorllewin dòn a minion Manaw,
 Ac Alpau pell, na sangodd dyn erioed.
 O tanom,—llynau llawnion sydd, a hafnau dyfnion
 Mynyddres wyllt Eryri ar ei hyd ;—
 Uthr gymoedd gant, paradwys niwl-freuddwydion,—
 Yr èang fôr, a dwfn sylfeini'r byd.

Os mynit weled olion cyfnod boreu,—
 Ac ol y Llaw fu'n llunio cwm a dol,—
 Cei ddarllen llyfr dirgelwech creig-rigolau—
 Cerfluniau dyfnion creigrew'n fras gyfrolau
 O'r cynhanesiol oesau pell yn ol,
 Daeargryn heibio ddaeth,—a'r hen gair wargam
 Ysgarai'n ddwygraig,—llyncai reieidr byw !
 Hyldremiai anwn dros y rhwyg diadlam,
 Echrydus doriad i fyd arall yw !

A glywaist ti'r ystorm yn Nghrib y Distyll,
 Pan o'r gorentrech llamai'r fellten fyw !
 A'r daran groch yn rhwygo'r creigiau crigyll !
 Cryn pyrth Abaddon dan gerbydau Duw !
 A'r Grib Goch erch, hudoles gwybr anwadal,
 Morwyn y mell, attalfa'r cwmwl gwyn ;
 Ddringwr aranau tramor, cymer ofal,
 Ar draed a dwylaw dringi'r creigiau hyn.

Yn agen dibyn du uwch llechwedd Llydaw,—
 Bardd ola'r gâd a ganai delyn dèn ;
 Tra marw'n leddf wnai'r alaw dan ei ddwyllaw,
 Y chwerwai llid gelynnion uwch ei ben.
 Rhag bysedd Sais, fe dafodd ef ei delyn
 I'r dwfn, a safodd ar y dibyn mawr ;
 Ac â braich nerthol—gelyn ar ol gelyn,—
 Ar ol ei delyn dafodd ef i lawr.
 Ac yma bu Llewelyn ein Llyw Olaf,
 Yn tanio bron Eryri tua'r gâd ;

Ac ar ei ol,—Glyndwr a'n dynion dewraf
Yn gwylio dôr cadernid Cymru fâd.

Teuluoedd ganoedd gynt, rhag lliid gelynion,
Fu'n ffoi i'w breichiau a'i cheseiliau serth,
Pan yrai trais galedi drwy'r gwaelodion,—
Y Wyddfa oedd eu noddfa hwy a'u nerth.
Nid oes o gylch ei godreu fwlech nac adwy
Nad yw ei hawel heddyw'n gwaeddi gwaed,
Ac yn mellidithio'r Iorwerth bythgofiadwy
A dynai'n beirdd i lawr o dan ei dreisfawr draed.

Cartrefol heddwch,—swn y droell yn nyddu,—
A foddiai blant y Wyddfa, neu ryw ganiad gu;
Swyn mabolgampau gynt,—swn telyn yn y teulu,
Ddifyrai hirnos llawer gauaf du.
Ond pan y chwifiai Cymru gâd-faneri
Yn erbyn gelyn,—fel rhaiadrau lli
Y llament o'r mynyddoedd, gwŷr Eryri
“A'u gwŷn gyll” fyddai yn “ei henill hi.”

Mae'r Wyddfa'n dal, ond corn y gâd a'i gyffro
Ni chlywir mwyach, hedd deyrnasa'n awr:
Ond hoffwn ddeffro'r cerrig ateb eto,
Er cof am ddewrion yr Eryri fawr,
Hanesion oesau rydd adroddydd dyddan,
O'r dyddiau difyr wedi'r tywydd blin;
Gorchestion Ffowc Ty Du, a Marged Mwyn a'ch Ifan,
A chastiau hynod Llanciau'r Clogwyn Gwin.
Mae ganddo gof am Ogot Owain Lawgoch,
(Hirflewog lofrudd) uwch y corbwl du!
Yr “Afon Ferch” a'i ffrydiau gwyllt uchel-groch,—
Rhamantus chwedlau'r amser difyr fu.
Maeshelfa'r bual gwyllt a'r carw corniog,—
Frenhinol fforest anial,—mwy nid yw;
Ond erys gloewder creigiau gwyllt ysgythrog,
A'r orallt lle bu'r eryr gynt yn byw.

Ti Wyddfa hoff, Parnasws beirdd a thelyn,
Mae'r brysur oes yn curo wrth dy ddor;

Twrf ei cherbydau sydd yn deffro'r dyffryn,
 Goroian fydd o fynydd ac o for !
 Mae galwad am dy fwnau, daw gofynion
 Didor, i agor pyrth o led y pen ;
 I'th ystorfeydd y gwneir adwyau dyfnion,
 Oddiar dy gelloedd llawnaf tynir llen.
 Y daiar-rwygwr aeth i'th wythen arian,—
 Hafnau dy blwm a'th berlawg efydd pur ;
 Taradra gyr, gŵyr ef am eu gorweddfan,—
 O'th risial glain, i'th dorog wythi dur.
 Chwarelwr draidd i fro tanddaiarolion,
 Ac ysgar wna gymalau d'esgyrn di ;
 O dan dy seiliau gesyd ei drosolion,
 Yn ddidor dwg eresi dy drysorion,
 I oleu dydd, a newydd da i ni,
 Y temlau heirdd mewn pant, a'r pentref dedwydd
 Ar ochrau geillt a cher y troellog ffyrdd,
 A godant ar bob llaw, mae'r byd ar gynydd,
 A'th uthr glogwyni geidw'th enw'n wyrdd.
 I'n milwyr gynt,—yn awr i'n telynorion
 Y rhoi dy nawdd, gan alw'n beirdd ynghyd ;
 Yr awen glyw dy lais o lys nefolion,
 I'th orsedd di y daw, a'i llu llenorion—
 I ddringo'n uwch, i Wyddfa anfarwolion,
 O dan nawdd Duw a gwyneb haul o hyd.



Cantaŵd

AR

Y MAB AFRADLON,

(*Buddugol yn yr Fisteddfod Genedlaethol yn Llandudno, 1864.*)

DRAMATIS PERSONÆ:—

NATHANIEL	Y MAB AFRADLON.
OTHNIEL	EI DAD.
DEBORAH	EI FAM.
ABNER	EI FRAWD.
SHIMEI	GWAS CYFLOG.
CHORUS	..	TEULU, GLODDESTWYR, BRODORION, &c.		

GOLYGFA--TY OTHNIEL.

No. 1. *Recitative*—NATHANIEL.

'Rwy'n blino ar fy mywyd yn y byd,
Yn rhwymau tynion tŷ fy nhad o hyd ;
Ac am gael yfed awel rhyddid iach,
Yn lle bod gartref fel rhyw gaethwas bach.
Draw tua'r dwyrain ar fasnachol hynt,
Yr âf, gan dafu'm rhwymau gyda'r gwynt.
Gan hyny, 'n iach, yn iach i dŷ fy nhad,
A bryniau serth fy ngenedigol wlad.

No. 2. *OVERTURE*,

No. 3. *Recitative*—DEBORAH.

I'w ffordd ei hun yr aeth, do'ed fel y delo,
 Y Nef a'i nawdd a wir ofalo am dano.
 Pan ddaw cyfyngder, heb na mam na thad,
 Yn llanc dibrofiad mewn estronol wlad,
 Rhyw dynged chwerw fydd i'w ran yn wir,
 Caiff wel'd ei gamgymeriad cyn bo hir.
 'Rwy'n ofni fod newyddion drwg gerllaw,
 Er hyn, gobeithiwn, mai yn groes y daw.

No. 4. *Can*—OTHNIEL.

Edrychais nes ciliodd o'm golwg yn llwyr,—
 Edrychais nes taenodd cysgodau yr hwyr,
 A gelwais ei enw,—ond adsain a ddaeth
 Yn ol i'm hysbysu, mai ymaith yr aeth.

Sychedodd ei enaid am rwysg a mwynhad,
 A chanodd yn iach i hen drigfan ei dad.
 Chwareuaf ar dannau fy nhelyn am hyn,
 Alargan gwynfanus a'm llygaid yn llyn.

Aeth heulwen fy mywyd dan gwmwl yn awr.
 Cysgodion hwyr einioes ddisgynant i lawr ;
 A minau mewn tristwch ddisgynaf i'r bedd,
 Mewn trallod a hiraeth am weled ei wedd.

No. 5. *Duett*—OTHNIEL A DEBORAH.

DEBORAH. { Fel aderyn rhydd yr aeth,
 { 'Hedeg i'r anialwch wnaeth.

OTHNIEL. { A thra'r awel arno chwyth,
 { Ni ddychwela'n ol i'w nyth.

Y DDAU. { Arglwydd Dduw ein Ior o'r nef,
 { Gwylia 'i ysgogiadau ef.
 { Dwg ef eto 'n ol o'r daith,
 { Gydag edifeiriol iaith.

Chorus of Household.—"Arglwydd Dduw," &c.

- DEBORAH. { Anwyl fab, fy nagrau 'n lli'
 { Dreiglant wrth dy gofio di.
- OTHNIEL. { Trwm fy mynwes ofni 'rwy'
 { Na chaf wel'd ei wyneb mwy.
- Y DDAU. { Arglwydd Dduw Elias gynt
 { A oruwchreolo 'i hynt ;
 { Ac a'i dygo 'n ol o'r daith,
 { Gydag edifeiriol iaith.

Chorus of Household.—"Arglwydd Dduw," &c.

Y WLAD BELL.—GLODDEST A LLAWENYDD.

No. 6. *Chorus*—(Molawd Bacchus).

Mae sain y telynuau yn awr yn cyhoeddi,
Fod Bacchus yn arwain y wledd,
A'i ffyddlawn ddilynwy'r o'i gylch yn ymloni
Wrth dremio ar degwech ei wedd.
Doed beirddion y byd gyda llais telynorion,
I arllwys eu mawl ar ei ben,
Taranau ei rwysg fyddo 'n rhwygo 'r awelon,
Gan adsain yn entrych y nen.

No. 7. *Recitative*—NATHANIEL.

Myfi sydd fachgen o'r gorllewin pell,
Ar daith yn chwilio am ryw ardal well,
Eich cwmni swynodd fy serchiadau 'n lân ;
Os rhoddwch genad, unaf yn y gân.

No. 8. *Can*—Soprano.

Croesaw i ti, estron tirion—
Croesaw atom ar dy daith,
Ti gei wledda 'n 'mhlith cyfeillion,
Sul a gwyl, a diwrnod gwaith,

Gyda chwmi difyr llawen
 Gofal byd sy'n ymbellâu ;
 Daliwn bleser ar ei aden—
 Hon yw'r adeg i'w fwynhau.

Gwell yw treulio oes yn llawen,
 Fel aderyn bach y wig,
 Sydd yn pyncio ar y gangen,
 Na thristâu a chadw dig.
 Hed yr oriau fel mynydau
 Hed yr oes fel heulog nawn,
 Gyda pheraidd sain y tannau,
 Cwmi llon a byrddau llawn.

No. 9. *Can*—NATHANIEL.

Yn awr yw yr adeg yn nyddiau fy nwyfiant
 Tra bo genyf aur yn ystôr,
 I yfed pleserau y byd a'i ogoniant,
 A'i fwyniant ar dir ac ar fôr.
 Mae 'r bibell a'r dympan, a dawns a llawenydd,
 Yn ymlid gofalon y byd,
 Mae Bacchus yn anfon y gwin fel afonydd,
 I redeg o hyd ac o hyd.

Chorus—"Doed beirddion y byd," &c.

Ysgydwed y milwr ei arf am ogoniant,
 Ymfrostied y cawr yn ei nerth ;
 Addoled y cybydd yr aur sy 'n ei feddiant
 A'r perlau rhagorol eu gwerth.
 I mi rhowch y dympan, y ddawns, a'r ymloniant,
 A chwmi rhai siriol a llon.
 I eilio i Bacchus y mawl a'r addoliant,
 Am wasgar gofidiau y fron.

Chorus—"Doed beirddion y byd," &c.

Y NEWYN.

No. 10. *Chorus*—Y BRODORION.

Llafurwyr y maes a alarant,
 Difrodwyd yr olew a'r ŷd,

Holl brenau y wig a wywasant,
 Llesgïodd y gwinwydd i gyd.
 Mae 'r newyn drwy'r wlad yn ymdeithio,
 O'i ol daw sw'n ingoedd a braw,
 Cynhauf yr yd a aeth heibio,
 Ond sw'n troed ymwarded ni ddaw.

No. 11. *Recitative*—NATHANIEL. (Ar y maes wrth borth moch).

Gwae fyth i'r dydd y cefnais ar fy ngwlad,
 A'r awr y croesais drothwy tŷ fy nhad.
 Ychydig wyddwn am drueni 'r byd
 Cyn dod mor bell o'm cartref cynes, clyd.
 Yn awr nid oes na chyfaill, câr, na brawd,
 I wrando 'm cwyn yn fy nhruenus ffawd.
 Mae 'm cefn yn llwm, a'm cylla 'n wâg bob dydd,
 Wrth borthi moch, y swydd isela' sydd.
 Ac er deisyfu rhan o'r cibau gwael
 Rhag marw o newyn,—nid oes dim i'w gael.
 Gwae fyth i'r dydd y cefnais ar fy ngwlad,
 A'r awr y croesais drothwy tŷ fy nhad.

No. 12. *Aria*—NATHANIEL.

O na ehedai y cwmwl llwyd,
 O'r môr gyda'r awel wynt ;
 Neu 'r gigfran a bara a chig yn fwyd,
 Fel yn amser Elias gynt.
 Na, na,—mae y nefoedd yn glir fel pres,
 A'r ddaear yn goch fel gwaed ;
 Mae 'r meusydd agenwyd gan rym y gwres,
 Fel haiarn o dan fy nhraed.

TY OTHNIEL.

No. 12. *Recitative*—DEBORAH.

Och fi ! breuddwydiais freuddwyd hynod iawn,
 Gwel'd caddug dudew 'n toi disgleirdeb nawn,
 A golygfeydd o ddychryn, ofn, a braw,
 Yn ymddyrchafu o'r cysgodion draw.

A llais Nathaniel glywais yn y dyfnder
 Yn ochain fel mewn trallod a chyfyngder.
 Rhyw newydd drwg o'r breuddwyd hwn a ddaw,
 Mai marw wnaeth yn ngwlad yr estron draw.

No. 14. *Recitative*—OTHNIEL.

Na roddwn gred yn mhob rhyw freuddwyd hyll,
 Sy'n ymddyrechafu o ororau 'r gwyll ;
 Ond ymddiriedwn yn ngalluog law
 Yr Hwn all gadw pob cyfyngder draw.

No. 15. *Can*—OTHNIEL.

Gall ef droi nos o dristwch prudd,
 A phryder dwys yn oleu ddydd ;
 A dweyd i'r gwyliwr am y wawr,
 Newyddion o lawenydd mawr.
 Yr Hwn fu 'n arwain Ishmael gynt,
 Yn yr anialwch ar ei hynt,
 All arwain y crwydredig ffol
 O'i daith anedwydd eto 'n ol.

Cwsg bellach, effro fyddaf fi,
 Drwy 'r nos, i wyllo drosot ti,
 A chanaf hungerdd felus fwyn
 Hungerdd o wëad serch a swyn
 I'th suo di rhag ofn y daw
 Un breuddwyd eto i beri braw.
 Gwasg d' amrantau 'n swrth i lawr
 I huno nes y toro 'r wawr.

Y WLAD BELL.

No. 16. *Chorus*—Y BRODORION.

Gruddfan mae yr anifeiliaid
 Am y ffrydiau dŵr a'r gwlaw ;
 Yswyd holl borfeydd y defaid
 Ar derfynau 'r anial draw.
 Tafod baban bach gan syched
 Wrth ei enau 'n glynu sydd,
 Ninau 'n ochain am ymwared
 O'r cyfyngder nos a dydd.

No. 17. *Can*—NATHANIEL.

Am nad oes ffrydiau yn y glyn,
 Mae cwyn drwy 'r dyffryn draw,
 Ond nid yw duwiau 'r gwledydd hyn
 Yn anfon gwllith na gwllaw.
 Fy ngwlad ! mor felus gynt i mi,
 Pan gartre'n llencyn bach,
 Oedd yfed o'th ffynnonau di,
 Ac o'th aberoedd iach.

Er bod yn mhell o fryniau serth
 Fy ngenedigol fro,
 Ei gelltydd a'i rhaiadrau certh
 Nid elant byth o'm co',
 Nac aelwyd gyntaf fy nhad
 Lle rhoddais gyntaf gam,
 Lle cefais lawnder a mwynâd
 Yn mynwes tad a mam.

Pe meddwn ar adenydd chwim,
 I gychwyn tua'm gwlad,
 Ehedeg wnawn heb orphwys dim
 Nes cyrhaedd tŷ fy nhad.
 Mae 'r gweision cyflog yno 'n cael
 Eu gwala o fwyd bob dydd,
 A minau 'n marw 'n grwydryn gwael
 A'r dagrau ar fy ngrudd.

No. 18. *Recitative*—NATHANIEL.

“Mi a godaf, ac a af at fy nhad, ac a ddywedaf wrtho, Fy nhad pechais yn erbyn y nof, ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid wy dellwng i'm galw 'n fab i ti, gwna fi fel un o'th weision cyflog.”

No. 19. *PASTORAL SYMPHONY.*

(*Golygfa*—Maes ger tŷ Othniel).

No. 20. *Bugeilgerdd*—(Soprano).

Deuwch, fy nŷadell fach,
 Ger y dyfroedd gloewon iach,

Cnoi eich cil dan gangau gwydd,
 Gewch tra dalio gwres y dydd.
 Yfwch ddŵr o ffrydiau glyn,
 Cewch fyn'd eto 'n ol i'r bryn ;
 Yno cewch mewn awel fwyn
 Orwedd ar welyau brwyn.

Hoffi 'rwyf pan doro 'r wawr
 Ganu cerdd i'ch galw ' lawr ;
 Gwyllo hefyd rhag y daw
 Bwystfil drwg i beri braw.
 Pranciwch, pranciwch, anwyl wyn,
 Dan gysgodion dail y llwyn ;
 Llamwch, llamwch, ddefaid mân,
 Dros y ffrydiau gloewon glân.

No. 21. *Recitative*—OTHNIEL.

Wel dyma grwydryn llwm, a'i wedd yn llwyd,
 Yn d'od yn mlaen, ac arno angen bwyd ;
 Rho'i iddo ddoagn iach sydd hyfryd waith,
 A'i ddwyn i mewn i orphwys ar ei daith.
 Mae rhyw debygrwydd yn ei wedd a'i lun
 A'i ysgogiadau, i fy mab fy hun.
 Hiraethu wnaif am hwnw tra fwy' byw ;
 Pa beth ! y crwydryn hwn ! ai breuddwyd yw ;
 Nathaniel, mab fy mynwes ;—clod i'r nef,
 Yw 'r crwydryn hwn,—âf i'w gyfarfod ef.
 Mae 'n wyllo'n hidl,—sychu 'r dagrau gaf,
 Ac yn ei garpiau ei gofleidio wnaif.
 I Dduw bo'r diolch, digon, digon yw,
 Fy mab a ddaeth yn ol o farw'n fyw.

No. 22. *Duett*—NATHANIEL ac OTHNIEL.

MAB. Fy nhad, pechais, pechais, fy nhad.
 TAD. Fy mab, croesaw yn ol i dy wlad,
 MAB. Pechais yn erbyn y nef ac o'th flaen dithau,
 TAD. Cyfod, atal dy lef, a sych dy ddagrau.
 MAB. Ac mwyach nid wyf deilwng i'm galw'n fab i ti.
 TAD. Tyr'd bellach, cymer gysur, bydd lawen gyda ni.

No. 23. *Recitative*—OTHNIEL.

“Dygwch allan y wisg oreu, a gwisgwch am dano ef, rhowch fo ar ei law, ac esgidiau am ei draed. A dygwch y llô pasged lleddwch ef; a bwytäwn, a byddwn lawen. Canys fy mab hwn farw, ac a ddaeth yn fyw drachefn, ac efe a gollesid, ac a gaed.”

No. 24 *Chorus.*

Cyweiriwch y telynau,
I orfoleddus hwyl;
Tarewch y pêr symbalau,
A dewch i gadw gwyl:
Hosannah! Bendigedig!
Fo 'n adsain dros y wlad,
Arweiniodd Duw'r crwydredig
Yn ol i dŷ ei dad.

No. 25. *Recitative*—DEBORAH.

Rho'wn groesaw iddo,—dewch wryfyn glân,
Awn i'w gyfarfod gyda dawns a chân,
Seiniwch y dympan, rhowch soniarus lef,
O eigion calon, croesaw iddo ef.
Nathaniel, boed bendithion nefoedd wen
Fel gwllith y wawr yn disgyn ar dy ben.

No. 26. *Chorus.*

Bwytäwn, a byddwn lawen,
Boed sain ein cydgan gref
Yn treiddio drwy'r ffurfafen
O groesaw iddo ef.
Mae heddyw'n ddydd llawenydd,
Telynau 'n seinio sydd;
Dechreuwn ganiad newydd
I anfarwoli 'r dydd.

No. 27. *Recitative*—ABNER.

Y fath gerddoriaeth! Shimei, dywed im',
Pa beth yw 'r achos o'r llawenydd hwn
Sy'n adsain dros y lle? Ni chlywais i
Er pan wy 'n Abner y fath ddawns a chân
Yn nhŷ fy nhad!

No. 28. *Recitative*—SHIMEI.

Dy frawd a ddaeth yn ol,
 Yn grwydryn llwm dros yr anialwch maith,
 Ac o lawenydd am ei gael yn iach,
 Dy dad a archodd ar i'r gweision ladd
 Y llo pasgedig. Tyred dithau i mewn,
 Ac una yn y gydgan gyda hwy.

No. 29. *Recitative*—ABNER.

Myfi gefnogi 'r fath benboethni gwyllt !
 Na wna. Ffolineb ac ynfydrwydd noeth
 Oedd lladd y llo pasgedig er ei fwyn,
 A tharo tant ar y fath destyn gwael.

No. 30. *Recitative*—OTHNIEL.

Paham, fy mab, yr oerodd serch dy fynwes ?
 Pa achos gefais heddyw i dristau ?
 Mae calon pawb drwy'r ardal heddyw'n gynes ;
 Dy frawd a ddaeth, mae achos llawenhâu.

No. 31. *Recitative*—ABNER.

Wele, myfi heb dori dy orchymyn,
 Bob amser yn dy wasanaethu di,
 Ni roddaist fyn erioed, na dawn, na thelyn,
 Na gwyl i ganmawl fy niwydrwydd i.

Eithr dy fab afradlon hwn pan ddaeth,
 Ac nid am un daioni 'riod a wnaeth,
 Pan ddaeth efe 'n gardotyn dirmygedig,
 Ti leddaist er ei fwyn y llo pasgedig.

No. 32. *Recitative*—OTHNIEL.

Fy mab, na chymer hyny 'n destyn tramgwydd,
 'Rwyd ti 'nwastadol gartref gyda mi,
 Ac yn cael rhan o bob danteithion beunydd,
 A'm heiddo i oll ydynt eiddot ti.
 A gweddus llawenâu a seinio moliant,
 Dy frawd o farw ddaeth yn fyw drachefn,
 Mae 'n ddyled arnom heddyw ro'i 'r gogoniant
 I'r Arglwydd am ei ragluniaethol drefn.

No. 33. *Chorus.*

Llawenychwn, gorfoleddwn,
 Testyn teilwng, teilwng yw ;
 Ceidwad Israel a folianwn
 Am ei ddychwel adre 'n fyw.
 Seiniwn iddo beraidd foliant,
 Unwn mewn soniarus lef,
 Boed y clod a'r holl ogoniant
 Yn oes oesoedd iddo ef.

Cydunwn oll yn beraidd gôr,
 I'foli 'r bendigedig Iôr.
 Boed ein telynau mewn awenol dân,
 Yn seinio 'i glod mewn gorfoleddus gân.

BEIRNIADAETH Y LIBRETTO.—“Y MAB AFRADLON.”

Apolonius.—Nid oes un cyfansoddiad yn y gystadleu farddonol a ystyriwn mor deilwng o wobr ag ydyw hwn. mae rhyw swn hudolus—rhyw dinciad arianaidd yn mhob lli Y testyn ydyw “Y Mab Afradlon.” Y trefniad lleisiol y Nathanael, sef y mab afradlon, Othniel ei dad, a Debora fam, Shimei, a gwas cyflog. Y *chorus* yn gynwysedig o'r te gloddestwyr, brodorion, &c. Y mae deuaud Othniel a Debo yn swynol i'r eithaf, ac os bydd i gerddor ddarllen y geiriau deimla gerddoriaeth yn ei galon, yn barod i ffrydio allan y farddoniaeth. Mae yr hwyl a'r nwyfiant feddw yn “Mab Bacchus” yn un o'r pethau tlysaf a welsom erioed:—

“Mae'r bibell a'r dympan, y ddawns a'r llawenydd,
 Yn ymbil gofalon y byd ;
 Mae Bacchus yn anfon y gwin fel afonydd
 I redeg o hyd ac o hyd.

Chorus.—Doed beirdion y byd gyda llais telynorion
 I arllwys ei mawl ar ei ben ;
 Taranau ei rwysg fyddo'n rhwygo'r awelon
 Gan adsain yn entrych y nen.

Mae y geiriau hyn, fel yr holl *gantata* yn wir, yn tryd cerddoriaeth a barddoniaeth gyda'u gilydd yn un afon fifeiriol, ac yn cynwys y lithrigrwydd a'r naturioldeb hwn

lai fod cyfansoddiadau o'r dosbarth hwn, sef barddoniaeth adwy. Nid fel barddoniaeth yr ydys yn beirniadu geiriau bodau. Edrych yr ydym am ddyfais, am fwsig gynhenid y sau, am fyrdra pob caniad, am newid lleisiau a chymeriadau i'r dyrfa fino ar undonaeth, edrych yr ydym am eiriau y l y cerddor eu canu a'u cofio gyda rhwyddineb, ac yn anad am eiriau sydd ynddynt eu hunain yn gerddoriaeth.

Wrth ddarllen y deuwad canlynol mewn ffordd gyffredin, nid dim llawer ynddo; ond tery yn effeithiol a grymus oddiar y form pan y bydd merch yn canu, mab yn ateb, a'r ddau chefn yn uno yn y *chorus*.

Deborah.

Fel aderyn rhydd yr aeth,
Hedeg i'r anialwch wnaeth.

Othniel.

A thra 'r awel arno chwyth
Ni ddychwela 'n ol i'w nyth.

Y ddau.

Arglwydd Dduw ein Hior o'r Nef
Gwylia 'i ysgogiadau ef,
Dwg ef atto 'n ol o'r daith
Gydag edifeiriol iaith.

Nid ydym yn petruso galw y cyfansoddiad hwn yn *gem*, a herwn y bydd miloedd o'r gwyddfodolion yn Eisteddfod 1865, a y gobeithiwn glywed y geiriau hyn o'r *orchestra*, yn cyd-oliolaethu â ni am brydferthwch y *Libretto* a ysgrifennodd *Polonius* i Eisteddfod Llandudno y flwyddyn hon. Iddo ef dded y wobr ar air a chydwybod.

J. CEIRIOG HUGHES.
LLAWDDEN.

Y PENTREF MYNYDDIG.

Os ydyw dull y byd yn myned heibio
Yn swm gofalon dylion byd y llawr,
Mae'r batriarchaidd oes yn aros eto
Yn hafnau dyfnion dedwydd mynydd mawr.
Yn nghwmni anian y dymunwn inau
Ail dreulio f'oes yn mhlith yr wŷn a'r mŷn,
Lle mae diniwed adar bach y bryniau
A'u peraidd gân yn deffro'r boreu gwyn.
Os oes o dan y nef ryw fangre dawel
Lle caiff y gŵr lluddedig, wrtho'i hun,
Ryw le i ddweyd ei gŵyn yn nghlust yr awel,
Cilfach y mynydd yw'r nefolaf un.
Ac yno dringwn lwybrau boreu bywyd
Cyn plygu lleni'r nos o'r cwmwd cudd,
I wel'd y wawr o'i gorwel yn agoryd
Ei dôr o dân i gerbyd aur y dydd.

Gydymaith dyddan, dringwn, awn i fynu
Dros fron redynog draw i'r fawnog faith ;
Fe gwyd yr haul i'r nen, mae'r wybr yn gwenu
Ei gwên o lwyddiant i ni ar ein taith.
Arweiniaf di drwy lwybrau'r geifr gwylltion,
Rhwnng creigiau crog, magwrfa'r eiddew gwyrdd
Drwy lethrau'r corieir, ac i'r uwch-uchelion,
Drwy erddi'r mwyar gwyllt, a'r cyfrin ffyrdd.
Cawn ail ymweled â'r trigfanau dedwydd
A lechant yn nghilfachau'r cwmwd certh :
Ac yfed gloewon ffrydiau migwyn creigydd,
Dyferion diliau, mwy na gwin eu gwerth.

Drain gwynion geillt wasgarant beraroglau,
Awelon dros berlysiâu'n sisial sydd ;
Adfywiol nerth o ddringo serth binoglau
Y brwyndir maith a dâl am daith y dydd,

Rhoi trem i lawr a gawn ar giliau gweunydd,
 O glogwyn glas, o dan y wanos werdd ;
 Fe gân y gôg uwch grugog eirwon greigydd,
 A meini'r nant a ganant yn y gerdd.
 Y gloyn byw ar foreu haf mor hyfryd
 A gais ymdrochi'n ngodrau'r cwmwl gwlith ;
 Ond gwan ei aden dlos, a'r awel hefyd
 I'w guro'n ol i fynwes blodyn brith.

Hawddamor ! dyma'r bwth yn nghesail mynydd,
 Yr ardd a'r glwyd a'r gamfa fel o'r blaen ;
 Y ffrydlif lân o gyrion brwyn y bronnydd,
 Yr wyn a'r myllt ar lechwedd wyllt y waen.
 Ar doriad gwawr y gwelir mwg yn esgyn
 O'r bwth lle mae'r mynyddwr bach yn byw ;
 Ben boreu glas y gwelir ef yn cychwyn
 A'i bastwn onen, gyda'i gorgi penwyn,
 A dedwydd gyda'i lafur diwyd yw.
 Ar serth orthiroedd pawr ei fân ysgrubliaid
 Fawnoglyd frigwellt llethrau certh y cwm ;
 Y gwr ofala am ei anifeiliaid
 O gynrych prin, diweddar, llechwedd llwm.

Ond wele ni yn awr o'r drofa sydyn
 I'r pentref dedwydd, hen le anwyl yw ;
 Cawn arlwy mynydd iach, maidd ac ymenyn,
 Yn swm y nant, a'r olwyn felin fyw.
 Nid seigiau breision moethus uchel fonedd
 Ar ford mynyddwr sy'n rhoi clod a bri,
 Ond bara gydag enwyn, a digonedd
 O gaws o borfa defaid a gei di.
 Myn hiraeth alw'r hen gym'dogion dedwydd
 O erw'r meirwon i'w hen gartref cu ;
 Drwy droion gyrfa boreu bywyd hylwydd
 Mynwes cyfoedion, cwmni difyr fu.
 Pa le mae'r hen Sian Dafydd fyddai'n dyfod
 O ddrws i ddrws a'i hosan yn ei llaw,
 A'i chwedlau "gwir bob gair," un ffraeth ei thafod ?
 A'i stopi newydd, heddyw hi ni ddaw,

Ac wele weithdy Roli'r Ala Lydan,
 Un hylaw gelfydd gyda'i gân a'i ordd ;
 A " Wil y ddrycin " gyda'i ddrwg ddarogan,
 A'r lariaidd Lowri Lewis, Tynyffordd.
 A dyma dŷ'r hen Domos " Gegin Iwgu,"
 A fyddai'n galw'i bwrs yn ffyddlon ffrynd ;
 A'i lais am lôg, pan fyddai'r byd yn gwgu
 Ar wr tylawd,—mae yntau wedi myn'd!

'Rwy'n cofio'r wyl, a'r prysur ymgrynhoi
 Yr arlwy ciniaw pêr a'r parotoi ;
 Cynnulliad llanciau a lodesi glân,
 I swm y delyn gyda dawns a chân,—
 Ar fin afonig fywiog dyna fân
 I fwyniant a gorloniant ger y lan.

A melus cofio'r anwyl bererinion
 A'u diffin sêl dros rinwedd, dysg, a moes,
 Eu gwersi rhad a buddiol, a'u cynghorion
 Yn heulwen bywyd crefydd Crist a'i groes.
 Ac yma bu mamolaeth a'i thirionwch
 Mynwesol hyfryd cyn i'm droedio cam :
 O bentref llwyd ! llawn igam ogam eiddiwch
 Fel llwybrau'r byd, pa le mae nhad a mam !

Hen furiau Ty'n y Nant a safant eto,
 Yr aelwyd fawr, a'r fantell simneu sydd
 Yn cofio'r gân, a'r oriau'n myned heibio
 Ar hirnos gaua'n nghwmni'r awen rydd.
 Y wledig ddawns, y pennill mwyn a'r delyn,
 Y chwedl adlonol o'r hen gornel glyd,
 Yr hen " Ben Rhaw " a'r dwylaw hylaw'n dilyn
 Hyd oriau byrion boreu'n hwy o hyd.
 Parwydydd candryll dremiant ar eu gilydd,
 Prudd-der a drig lle bu llawenydd byw ;
 I adar gwyll yr egyr ei fagwryydd,
 Lloches dylluan, mangre'r ellyll yw.

Yn is i'r nant mae olion bwth henafol
 Llety dewines hudol, gyfrwys, gall,
 Ac yma clywir yn y gwynt gauafol
 Ei chreglais fel o agorfeydd y fall.

Bu'n tadau'n ofni swyn ei phair uffernol,
 A hithau'n gorwedd yn ei beddrod oer,
 A gwelsant ei drychiolaeth hagr esgyrnol
 Ar hyd y llethrau'n casglu llysiâu'r lloer.
 Ac eto o'r tu ol i'r aelwyd clywir gryngian
 Fel dwnad gwrach ddechreunos wrth y tân,
 Neu hen wraig hen, yn gorfod byw ei hunan
 Mewn bwth mynyddig uwch ei swp o wlan,
 I wrando gricric y criciedyn cryglyd
 Yn lludw'r mawn o dan ei simneu fyglyd.

Ac o'r nant acw clywid anamserol sw'n,
 Yr heliwr marw fyddai'n galw ar ei gwn.
 Cwn annwn udent yn nyfnderau'r nos
 Wrth wel'd rhyw ffurfiau rhithiol ar y rhos,
 A'r "Bodach Glas" ellyllaidd, hyll ei lun,
 Nes ofnai gwr fyn'd adre'r nes ei hun.

Rhyw lwyth o'r hen chwedlonau lynant eto,
 A mynant fyw a marw yn ein mysg;
 Ond fel mae dull y byd yn myned heibio
 Er ffyniant mwy sylweddol foes a dyg.

Cydgasglu'r buchod ar ben boreu byddant,
 A chyda'i stên y daw herlodes lân;
 I'r buarth bach o bell adwyau deuant,
 A'r eneth lawen wrth eu godro, gân.
 Pentrefwyr dd'ont o gylch y maen mwsoglyd
 Fin hwyr pan fo'r bugeilfardd wrth ei ddôr,
 Yn adrodd chwedlau am y brwydrau gwaedlyd,
 Neu ddygwyddiadau parthau pell y môr.
 Daw yno'r hen wr iach, a henach heddyw,
 'Rwyf fi'n ei gofio yn hoewach ar ei hynt,
 A'r hen fam gu, rhyw neina anwyl ydyw,
 Llawenach bro mae hi'n ei gofio gynt:
 Er na fu 'rïoed yn mhell o'i bwth mynyddig,
 Mae wedi gweled llawer tro ar fyd;
 Hen furiau'r bwth, yr ardd, a'r fwyn afonig
 Hyd lan y bedd ro'nt iddi hedd o hyd.

Y bachgen bochgoch gyda'i las fugeilffon,
 Ei gwmmi gwyd ar annaid pen ei fys,
 Dros giliau'r fron arweinia'i lon gymdeithion,
 I erddi'r mwyyar gwyllt, a llwyni'r llus,
 Heb deimlo braw y dringa'r hoglange nwyfus
 I nyth y bareud ar y clogwyn ban;
 Ei bleser ef yw llamu'r bwlech peryglus,
 A'r mynydd yw ei gynhefinol fan.
 Os dygwydd iddo fyn'd i fro bellenig
 A siglo moroedd rhyngo a bwth ei dad,
 O'r dalaeth bell y cofia'r bwth mynyddig,
 Y pentref bach, y ffrwd, a'r llwyn caudadfrig,
 Ac yn y dramor dre', fe deimla'n unig,
 A'i galon fydd rhwng creigiau gwyllt ei wlad.

Clyw, dyna sŵn o bell, sŵn deadelloedd,
 Bu diwyd sŵn bugeiliaid gyda'r wawr,
 Yn cynnull praidd, a deuant trwy adwyoedd,
 Y fry, clyw dwrf y dyrfa'n d'od i lawr,
 Dros gwm a nant y d'ont i bant yr olchfa,
 Yn wlanog lu i lân y dyfroedd iach,
 Y bryniau pell a glywant sŵn cyfarthfa
 Defeidgwn lu, neu lais y bugail bach.
 A diwyd yw bugeiliaid gyda'u gilydd,
 Yn prysur gynnull praidd y frwynog fron,
 Daw mil o ddefaid mân i lân dorlennydd,
 A'u llef i chwyddo byrdwn lleisiau llon.
 Y corniog hwrdd. a'r ddafad ungorn frefol,—
 Y cloff, a ddwg y bugail ar ei gefn,
 I'r dwfr a defir, yna'n drwm ddyferol
 O'r olchfa'r ânt gan drystian am y drefn.

Os prysur heddyw, eto, can' prysurach,
 A llonach sŵn gwelleisiau ger y llwyn;
 Mamau a phlant a ganant yn amgenach
 A ffraethach araeth yr amaethydd mwyn.
 Os llawen am dymhorol yd gwaelodion,
 A gwin cynhauaf yw'r dyffrynwr cu,
 Llawenach bugail wedi'r holl drallodion,
 Ar ddydd y enaif, a llonach yw y llu,

Ac fel y daw y fywiog fwyn afonig
 Drwy hafnau dyfnion llethrau llyfnion bryn,
 Yn mrechiau chwaerffrydlifoedd niwlanedig
 Y dawns lodesi glân ar laslawr glyn.
 Y ddafad fwyn o'i gwisgoedd a ddiosgir
 Er cael i'w harglwydd hugan am ei gefn ;
 Ar ol ei llwyr ysbeilio hi ollyngir
 I lamu'r bryniau yn ei hol drachefn.
 Ond hebddi hi y saif y weithfa brysur,
 Ac ofer troi y llif i'r pandy llaith ;
 Dystawa sŵn y droell, a'r nyddu difyr,
 A gwenol gwehydd dŷn i ben y daith.
 Mae'n rhaid i'r eidion bras wrth borfa dolydd,
 Y maes meillionog yn y dyffryn draw ;
 Ond llawnder golud o gilfachau'r mynydd,
 Ymborth a gwisg o borfa'r ddafad ddaw.
 Wrth ei bugeilio ar y llanerech frwynog,
 Neu wyllo'r afr ar ei pheryglus lam,
 Y bugail gân yn sŵn afonig fywiog,
 Lle chwery'r wŷn heb ofni llid na cham.
 Ardderchog fryniau gwlad ei enedigaeth,
 Dirif glogwyni'n gaer o gylch ei fro,
 Sydd fel colofnau'n dal y greadigaeth,
 O dan dylathau ban y dirfawr dô.
 Mae ef a'r wyllt olygfa'n hen gymdeithion,
 Pob craig a eilw ar ei henw'i hun ;
 Mae'n deffro'r creigiau gyda'i wyllt acenion,
 Ac yn y ffrwd yn caru gwel'd ei lun.
 Bryd arall eistedd ar y drum i orphwys,
 Ac yno dry alaw bêr o'i bib,
 Nes deffro llwybrau grug ei serth baradwys,
 Lle'i eifr a borant ar beryglus grib.
 Mae ganddo lonaid gwlad o draddodiadau,
 A chwedlau gwyllt, rhamantus, ar ei gof,
 Am gŵn, a defaid, a gorchestion tadau,
 A llu o anifeiliaid gwyllt a dof.
 Gall adrodd hanes gwylliaid a llofruddion,
 Breswylient yn nghilfachau'r mynydd gynt ;
 Am lawer câd fu'n croesi bwlech uchelion,
 Sŵn tincian arfau—rhyfel yn y gwynt,

Y "Fuwch gyfeiliorn," a'i hiliogaeth enwog,
 A "Gwragedd anwn" ger y barfawg lyn;
 Am "Glawdd Llyn Llion," ac am "Ychain Banog,"
 Am "Gŵn yr Wybren," ac "ysbrydion bryn;"
 Am lawer teithiwr blin, ar nos annedwydd,
 Fu'n croesi'r bwlech, heb oleu ser na loer,
 Ac am y modd, ar wylltoedd serth y mynydd,
 Y cafwyd hwy yn farw, ac yn oer.
 Ond yn ei fwthyn gwyn y ceir dyddosrwydd,
 Hedd a difyrwch ar ei aelwyd glyd,
 O fewn ei furiau geirwon trig boddlonrwydd—
 ESTRON o fewn palasau mawrion byd.
 Nid ydyw ef yn darpar gwin i'w gelloedd,
 Mae'r ffrydlif loew'n murmur heibio'i fwth;
 Mae hedd a ffyniant yn ei ddeadelloedd,
 Gorsedd tawelwch yw ei frwynog lwth.
 Rhyw swyn diddiwedd ydyw oriau bywyd
 Yn nghwmni'r defaid ger y ffrydlif lân,
 Olwyna dyddiau difyr mewn dedwyddyd,
 A melus haf a gauaf yw y gân.
 Ond bugail weithiau sydd yn drallodedig
 Yn chwilio'r cymoedd am ei oenig wen,
 Gan alw'n uchel am ei oen golledig,
 A'i lef atebir o glogwyni'r nen.
 Er fod ei gant ond un mewn diogelwch,
 Nid yw yn dawel am ei oenig fach,
 Mae'n chwilio'r cymoedd pell, a'r gwyllt anialwch,
 Nes d'od a'r un golledig adre'n iach.
 Pa ryfedd os ein Ceidwad bendigedig
 Yn caru'r mynydd tawel wrtho'i hun,
 A gweled yn yr oenig fach golledig,
 Ryw ddarlun o beryglus gyflwr dyn?

Tra mae yr haul dros gwmwl gwyn yn gwenu,
 I'n galw'n uwch i awel hinon ha',
 Y llwybr sydd drwy dwynydd yn ein denu,
 Ac yna serth gyfeiria i'r gorifynu,
 Lle'r grisial resi seirian sy'n serenu,
 Hen bentref llwyd mynyddig—boreu da,

CANTREF Y GWAELOD.

CANTAWD DDRAMAYDDOL.

Y RHAN GYNTAF.

CYDGAN AGORIADOL.

O ! hyfryd wlad ! rosynaidd, bêr dy sawr ;
Paradwys Prydain fâd, mor wyrdd dy wawr !
Câr haul ei degwech yn y dyfroedd clir
Sy'n ymddolenu drwy dy dawel dir :
Rhwng glenydd hoff dy deg frodiroedd di,
Chwardd ŷd a gwin, a llawnder fel y lli.
Yn arogl hyfryd hâf, a'i thyner awel,
Daw cân bugeiliaid o rosfeusydd tawel ;
Ac alaw felus ar ochenaid chwâ,
A ddywed i mi, dyma foreu da.

Deuawd.—ENID A RONA.

Enid.

Rhyw nos, a'r ser yn gwylio
'Roedd eos yn y llwyn ;
A minau'n dyfal wrando
Ar lais yr eos fwyn :
Y lloer a godai'n araf
I'r glir ddigwmwl nen ;
A gwenu'n siriol arnaf
Yr oedd y lleuad wen.

Mi gysgais, a breuddwydiais
 Fod yr aderyn tlws
 Yn dod yn nes, a'i fwynlais
 A'm denodd dros y drws ;
 Dilynais ef i'r dolydd
 Ac i'r mynyddau draw ;
 O'm hol y clywn ystormydd
 Dolefau, ing, a braw.

Ehedodd yr aderyn
 A'i gân a gollais i,
 A deffro wnes yn sydyn
 Ac wylais, coelia di ;
 Nis gallaf ei ddeongli
 Er poeni dan y pwn,
 Ond ofnaf mai caledi ddaw
 O'r breuddwyd hynod hwn.

Ple gallai fod fy Hywel hoff yn awr ?
 Ai ar y tir, ai ar y dyfnder mawr ?

Rona.

O ymdrecha ei anghofio,
 Yna llawen, dedwydd fyddi di.

Enid.

Ei anghofio ! 'rwyf yn siarad iaith
 Tu hwnt i'm hamgyffredion i.

Pe gallwn ond anghofio
 Ei enwi am un awr,—
 'Rwy'n credu'r ai'r aberoedd byw
 Yn ol i'r mynydd mawr.
 Haws ydyw cronï'r afon,
 Ac attal rhedfa'r dôn,
 Na dofi'r fflam o serch y sydd
 O fewn i'r fynwes hon.

Rona.

Mae heddyw'n ddydd Calanmai,
 Clyw Enid gân y côr
 Yn dyfod i gyfarfod
 Morwynion min y môr.
 Mae yn y Llys briodas,
 A dawns yn min y dôn,
 Fe dry dy gwynion dithau'n gân
 Yn mhlith cymdeithion llon.

Enid.

Ond yn y dawns hudolus,
 A deigr yn ar fy ngrudd,
 Nis gallwn fod yn llawen
 Tra byddai'm bron yn brudd.
 O Edwin! fy anwylyd,
 Mae'r llwyn ar fin y lli,
 A'r garreg ateb yn y glyn
 Yn gofyn "Ple 'rwy'ti?"

Deuawd.—ENID A RONA.

Drwy Gantref y Gwaelod yr awn gyda'n gilydd,
 Mor hyfryd yw rhodio ar diroedd y dôn;
 Bro dawel y dolydd, dolenta'r afonydd,
 Nid oes bro mor anwyl, mor hyfryd a hon.
 Mor ddedwydd yr oeddym, heb ofid na hiraeth,
 Yn chwareu ar lenydd Disynwy a'i si.

Enid.

O Hywel! mewn hiraeth mi grwydraf y dalaeth.

Rona.

Fe dderfydd dy hiraeth, cei nofio mewn afiaeth.

Enid.

O fôr ac o fynydd y dof attat ti.

Rona.

Hen ardal y delyn sy'n anwyl i mi.

YR AIL RAN.

GLODDEST YN LLYS GWYDDNO GARANHIR.

Seithenyn.

Mae gwahoddiad yma heno
 At y gwin i balas Gwyddno ;
 Fel y rhwyfa bád i'r hafan,
 Tynfa gwr yw cwmni dyddan.

Elphin.

Bendith fo i Gored Gwyddno,
 Yn y byd ni cheir fel hono ;
 Bwyd i ungwr roddir ynddi,
 Bwyd i ganwr geir o honi.

Gwyddno.

Wele'n difyr fardd yn dyfod,
 Henffych i'n Taliesin hyglood :
 Llwydd i'r gwr a garo gywydd ;
 Aed ei ganu byth ar gynnydd.

Seithenyn.

Bendith ar y talcen iesin,
 Gaed un boreu'n Ngored Elphin ;
 Bydded i'w brophwydol awen,
 Gadw'r byd yn ddoeth a llawen.

Taliesin.

Dod y gragen wrth dy glust,—
 Clywi lais o anfarwolyd ;
 Yn y murmur heddyw mae
 Sŵn digofus ing a gwae,
 Sŵn ystormydd enbyd.
 Mae rhyw sibrwd yn y don
 Cân o hiraeth ydyw hon,
 Trydar murmur môr a'i si
 Mawr alanas môr a'i li',
 Dyna'r helynt yn y gragen glywi di.

Dod y gragen wrth dy glust,—
 Clywi sw'n awelon blinfyd ;
 Clywi lais y forwyn-fôr,
 Ar y feisdon wrth y ddôr,
 Yn darogan drygfyd.
 Daw o'r gwinwydd adlais gwan,—
 " *Derfydd mwyniant yn y man.*"
 Mae'r awelon dros y weilgi'n
 Dweyd y newydd wrth y lân,
 Trydar, murmur môr a'i si,
 Mawr alanas môr a'i li—
 Dyna'r helynt yn y gragen glywi di.

Cydgan.

Huna'n dawel, fôr aflonydd,
 Ar obenydd fwyn y nôs ;
 Paid a son am chwerw dywydd,
 Mae hi'n dawel ar y rhos.
 Fel y mae dy ddnau'n derfyn
 I'n hen Gantref dedwydd ni,
 Nodded i ni rhag y gelyn
 Fo dy lanw, fo dy li'.

Taliesin.

Mae rhyw sibrwd annaturiol,
 Yn yr awel! sw'n dyeithrol!
 O! gwel Seithenyn, gylch y tŵr
 Finteioedd adar gwyllt y dŵr.
 Ysgrech y wylan dd'wed i mi
 Fod rhyw drychineb yn y lli.
 Rhyw noson wyllt a gawn ni heno,
 Gwel dorion môr ar Gaer y Wyddno.

Seithenyn.

Myfi yw Seithenyn, pen ceidwad y ddôr,
 Myfi sydd yn ffrwyno gwyllt ymchwydd y môr
 Er cadw'r hen Gantref a'i bonedd mewn bri,
 Cadwynaf y llanw, ataliaf y lli.

Cydgan.

Tra dawn yn dylifo, tra mêl ar y mân,
 Tra llwyddiant a llawnder, a gwerth yn y gwin ;
 I'r gwr bia'r nenbren bo hiroes a hedd,
 Cydyfwn ei lwyddiant yn mwyniant y medd.

Seithenyn.

Myfi sy'n gofalu am lysoedd a barn,
 Cadernid y morglawdd a sierwydd y sarn :
 Ar dro'r elo'r hirlas, a'r gwin gyleh y bwrdd,
 Tra pigion a bonedd ein Cantref yn cwrdd.

Cydgan.

Tra dawn yn dylifo, tra mêl ar y mân,
 Tra llwyddiant a llawnder, a gwerth yn y gwin ;
 I'r gwr bia'r nenbren bo hiroes a hedd,
 Cydyfwn ei lwyddiant yn mwyniant y medd.
 Hir oes i Gwyddno Garanhir,
 A hedd i'w baradwysaidd dir.

Taliesin.

Mi glywais frad gyfrinion
 Ystrywgar wyr ar waith
 Bob nos yn turio dan y tŵr,
 Agenu'r Gaer, gwanychu'r sarn
 A lledu dorau'r dwr.
 P'le'r aeth Seithenyn mor sydyn i ffwrdd,
 Gan adael y ddifyr gyfeddach
 A'r gwin ar y bwrdd!

Elphin.

Brad ! cynllwyn ! dichell a brad !
 Ow dyner fam ! Ow dirion dad !
 Oedranus deidiau'n Heden wen,
 Ffarwel anwyllion oll :
 Mae oriau'n bywyd a'r byd ar ben.
 Hen dalaeth hoff ! clyw drwst y farn !
 Ow Gaer d'wyllodrus ! anffyddlon sarn !

Cydgan.

Mae dolef a chyffro yn llanw y llys—
 Cenhadon a redant mewn braw ac mewn brys;
 Seithenyn fradwrus adawodd y ddôr,
 Mae allwedd y llifddor yn meddiant y môr.
 Ymhyrddin daranfawr y dòn ar y mur,
 A dorodd y barrau, a darniodd y dur,
 Gan lanw'n dygyfor a'i donau mor daer,
 Adwyodd y morglawdd, agorodd y Gaer.
 Gan hyrddin y cerhynt y sarnfur a syrth,
 Mae morfeirch yr eigion i mewn drwy y pyrth.
 Clyw gyffro minteiodd o'r dinystr yn ffoi,
 Clyw floedd am ddiangfa, heb un drws i droi!
 Clyw ddolef y famaeth a'i baban mor wân,—
 "Pa le, O pa le cawn ni gilfach a glân!"

Y DRYDEDD RAN.

GOLYGFA—CREIGLE GWYLLT AR LAN Y MOR.

Recit.—GWYDDNO GARHANIR.

Dwyrëa foreu du, ar dônau erchyll!
 Gwel yma fawr alanas môr a'i li'!
 Cudd haul dy ben tu hwnt i'r cwmwl tywyll,
 Ar ing a bawdd, pa fodd y gweni di!
 Taranai'r nos, a rhuai'r dòn chwyddedig:
 I fin aberoedd yr Eryri 'r aeth:
 Mae holl waelodion gwlad fawr glodforedig
 O dan y môr! Ow! ddifrod heddyw ddaeth.

Can.

Crwydrasom drwy y morfa maith,
 Coedwigoedd tywyll, dyrys daith,
 A'r llanw gwyllt yn dyfod.
 O'n hol y clywem hyd y nef,
 Frawychus, dorcalonus lef,
 O'n Cantref yn y Gwaelod.

P'le mae trigfanau'r Morfa Mawr!
 O'r golwg aeth Caer Wyddno 'n awr -
 Mae Twr y Sarn yn soddi.
 O! fôr anniwall, trwm i mi
 Dy floddest ddiosturi di,
 Uwch ingoedd byd yn boddi.

Cydgan.

O! fôr, mae llawer wyneb llon
 Yn awr yn welw dan dy dôn:
 Yn nghol dy ddyfrol ddiifrod.
 Oer lef a ddaw o gwm a nant,—
 Mae Cymru'n wylu am ei phlant,
 A'i Chantref yn y Gwaelod.

Ein hanwyl Dalaeth mwy nid yw,
 A gyrwyd ninau bawb o'r byw
 Mor bell o'n bro gynhefin:
 Gwasgarwyd ni o le i le—
 Rhai i'r Dwyrain, rhai i'r De',
 I'r Gogledd a'r Gorllewin.

GOLYGFA—YR UN.

DYFODIAD ELPHIN A HYWEL.

Hywel.

Diangfa gyfyng iawn a gefais,
 O safn angau y diengais;
 Tylathau, distiau daffai'r dôn—
 Rhyw nos ofnadwy ydoedd hon.
 P'le gallai fod fy Enid, O fy Nuw!
 Mi rown y byd am wel'd fy Enid fach yn fyw.

Elphin.

O'r cyffro gwyllt y rhedai dwy,
 'Roedd Rona 'n un o honynt hwy.

Hywel.

Mae'n rhaid fod Enid yno'n un:
Mae'n caru Rona 'n fwy na hi ei hun.

Elphin.

Mae yma luoedd wedi glanio'n iach,
A minau daflwyd fel abwydyn bach
I bysg y dôn a'r dinystr du,
Lle collais fy nghyfeillion cu.

Hywel.

Ai newydd fôr, ai newydd draeth
A wŷr am Enid, i b'le'r aeth?
Mi chwilia'r byd am dani.
Fel gwyllyddydd am y wawr,
Crwydro i fyny, crwydro i lawr
Y byddaf am liw'r lili.

RHAN ARALL O'R MORLAN.

DYFODIAD ENID, RONA, A THALIESIN.

Rona.

Mae aŵ lu yn ceisio'r lan
Ar goed a badau'n llesg a gwan.
Ond beth yw hwn, greulonaf li,
Ar frig y dôn a defli di?

Enid.

Cwrwgl bychan egwan yw,
Ac ynddo faban,—baban byw!
Rhyw fam a'i rhoes ar gyfyng awr
Ar fron y lli i'r llanw mawr;
Drwy dorion gwyn—er gwell, er gwaeth—
Ar lin y dôn i'r lan y daeth.

Rona.

O faban hoff, a'th egwan gri,
O gryd y dòn y dygwn di.

Taliesin a'r Cwmni.

O Dduw, Creawdwr mawr y môr,
Gwel ein cyfyngder ni ein Ior ;
O gwrandò'n llef o'r nef yn awr,
Tawela donau'r dyfnder mawr ;
Ar gyfyng awr o nodda ni,
Tra môr, tra Brython, molwn di.

GOLYFFA—YR UN.

Enid.

O gwm i gwm, o berth i berth,
Drwy elltydd geirwon, creigiau serth,
Mi wn am un fu'n crwydro :
Am un Hywel hardd ei lun,
Bron i'r fynwent nad 'ai'r fun,
A mi fy hun yw hono.

Elphin.

Pwy ydyw hon ?

Hywel.

Ai breuddwyd yw ?
Fy Enid ddaeth o farw'n fyw.

Enid.

O Hywel, f'anwylyd, er blwyddi mewn blinfyd,
Ti ydyw gwawr gwynfyd fy mywyd i mi :
Gorlifed afonydd a rhued ystormydd,
O fôr ac o fynydd y dof atat ti.

Hywel.

Eisteddwn dan y deiliog llwyn,
 Mae llwyn i serch yn llawn o swyn,
 Y fwyn ei llais ar fin y lli,
 Dy gân sydd fel y mêl i mi.

O Enid fy anwylyd,
 Mae dy gwmni'n well na mywyd :
 Pan y cefni,—gwenau gwynfyd
 Ni lona'm calon i.

Nid pêr yw accen y fwyn golomen,
 Nid llon y llinos, na chân yr eos,

Ni'm boddia odlau mwyn

Holl adar dengar dwyn.

Wyf nos a dydd a'm bron yn brudd
 Pan hebot ti, ni'm llonir oni'm lloni di.

Nid hardd y rhosyn ar fron y dyffryn,

Y dyner lili, na'r anemoni,

Nid yw y meillion mân,

Na'r banadl melyn glân,

Yn bêr eu sawr dan wlith y wawr

Fy Enid, hebot ti,

Ni'm llonant oni'm lloni di.

Enid.

Fel blod'yn brith sy'n bêr ei sawr

I'r fêl wenyne yn yr ardd :

Neu rosyn teg dan wlith y wawr,

Wyt fwynach im' fy Hywel hardd.

Y ddau.

Fel tua'r lan y daw y dôn,

A'r teithiwr i'w aneddlon lon,

Fel tua'r môr y rhed y lli',

Mae tynfa f'enaïd atat ti.

Rona, a Chydgan.

Dowch a blodau gwyllt y gweunydd

Gydag irwydd glas y glyn ;

Plethwn gyda brwyn y bronydd,
 Gadwen am ei gwddw gwyn ;
 Tynner mêl o'r tannau tynion,
 Corn y gâd a'r bibell bêr ;
 Ar y ddau bo hafaidd hinon
 T'w'niad haul a siriol sér.

Cydgan.

O'r diwedd ymdawela'r dôn,
 A hunar awel ar ei bron ;
 Y dyfnder fel concwerwr mawr
 Ar ol y gâd, orwedda i lawr,
 Fel ymherawdwr yn ei bwyll,
 Ofnadwy dawel, llawn o dwyll.

Taliesin.

A gwelir dan ei lanw mawr
 Ein hen gartrefi teg eu gwawr,
 Lle eu drigolion gynneu gaid,
 Yn awr cynniwair hyfion haid
 O'r ddyfrol ddyeithr lymrig lu,
 Drwy'r hen aelwydydd difyr fu,
 Mae cyntedd, palas, porth, a dôr,
 A'n hen anneddau'n eigion môr.
 Drwy gymoedd a mynyddau mawr,
 Yn crwydro byddwn ni yn awr.

Cydgan.

Egyr mynyddau Cymru
 Eu dorau led y pen ;
 Ac yno'r iaith a bery
 Tra seren yn y nen.
 Ac yno tra bo môr
 Y molwn enw'r Ior :
 Trigolion bro'r Gwaelodion oll yn awr
 Cydfloeddiwn am y waredigaeth fawr.

DAFYDD AP SIENCYN.

(*Allan o Opera fuddugol Llandudno, 1885*).

GOLYGFA—NOS MEWN CREIGLE COEDIQ, GER Y GARREG
WALCH, DYFFRYN CONWY.

Cydgan y Gwylliaid.

Dan garedig fantell nos
Cwsg yr awel ar y rhos ;
Tra bo'r gwylwyr yn breuddwydio,
Byddwn dawel rhag eu deffro,
Tra pelydro seren dlos.
Dringwn glogwyn Llwyn y Berth,
Draw o dan y geulan gerth ;
Llwybrau cyfrin anffaeledig
Sydd yn arwain drwy y goedwig
Draw i odreu'r Siabod serth.
Croeswn y llethrau, nofiwn y llyn,
Rhydiwn yr afon a dringwn y bryn ;
Rhedwn yn gyflym drwy'r goedwig dawel,
A distaw, fel sibrwd y dyner awel :
Draw dros y gweunydd a'r mynydd mawr,—
Gwae i'n gorthrymwyr cyn toro'r wawr.

DYFODIAD DAFYDD AP SIENCYN, A CHLEDDYF YN EI LAW.

Cydgan.

Croesaw i'n blaenor dewr sydd yma'n d'od,—
I'r llaw fu'n llywio'r cleddyf rho'wn y clod.

Dafydd.

Ni raid i Ogledd Cymru mwy—
O Aber Maw i Aber Soch,
Ac Aber Conwy gyda hwy—
Ddim ofni cās yr Ynad Coch.

Cydgan.

Hwre! hir oes i'n Dafydd ni :
Pendragon tegwch ydwyt ti.

Dafydd.

Gwel, gymrawd, liw ei waed ar gleddyf glas,—
Gwel ar y llafn waed calon ynad cês ;
Ac yma bydd nes mwydir ef gan waed
Yr olaf o'm gelynion dan fy nhraed.

Gwylliaid.

Hwn oedd yr ynad mawr ei ddig
A drawsfeddiannai berth a gwig,
Er mwyn gormesu'r gwan.

Dafydd.

Do, camgarcharodd lawer cant
O weision a diniwed blant
Am ddim ond ffoi a rhedeg,—
Gomeddodd i mi ddweyd y gwir
Dros ferch na wyddai Saesneg :
Am fathru Cymru dan ei draed,
Fe'i mathrwyd yntau yn ei waed.

Gwylliaid.

Hwn oedd y gŵr a'i gob yn laes,
A fyddai'n cydio maes wrth faes :
Am fathru Cymru dan ei draed,
Fe'i mathrwyd yntau yn ei waed.

GOLYGFA II.—YR UN.

SIERLYN YN DYFOD I MEWN DAN GANU.

Can Sierlyn.

Dyma oen a gymerais yn g'lenig
O faes hen gymydog i ni,
A dafad o gae gŵr bonheddig
Fu ganwaith yn elyn i mi :

Y ceiliog a ganai'n y buarth
 Pan oeddwn i'n cyrhaedd y coed ;
 Pe clywsech chwi'r cŵn yno'n cyfarth,—
 Ni fu ffasiwn helynt erioed. Fa la la, &c.

Mi a wn lle mae llefrith yn llifo ;
 Mi wn lle mae 'menyn a maidd ;
 Mi a wn lle bu'r gŵr yn ymguddio
 Mewn gwýdd, pan hebryngais ei braidd ;
 Mi a wn am un llanereh fu'r llynedd
 Yn llawn o blu gwyddau a gwaed,
 A murddyn ger mawnog y mynydd,
 Lle aur yn ddigonedd a gaed. Fa la la, &c.

Mi a wn lle mae geneth yn gweini,
 A'i defaid ar lechwedd a dôl,
 Ond ni chaf un awr o'i chwmpeni,—
 A dyna lle'r ydw' i ar ol :
 Mae'n rhodio y dolydd mor dawel,
 Mor fwynaidd, nes gwelo hi fi,—
 Ac O! fel yr ewig, a'r awel—
 Mae'n haws dal yr hebog na hi. Fa la la, &c.

Cydgan.

Ust! clywch! dyna ru yn yr awel,
 Mae brad o dan gysgod y gwýdd ;
 Ac nid yw y dolydd yn dawel,—
 Rhyw sw'n ymosodol y sydd.
 Mae ceidwad yr adwy'n breuddwydio,
 Gadawodd y gwylwyr eu gwaith ;
 Sw'n didor o fôr sy'n cyfeirio,—
 Trwst ystryw a difrod ar daith.

GOLYGFA III.—PARTH ARALL O'R GOEDWIG.

Sierlyn.

Clyw chwibanogl groch y graig
 Yn galw'r ystorm o'i goror gerth.

Dafydd.

Clyw yn ateb, ru yr aig,
 I godi Neifion gyda'i nerth.

Sierlyn.

Mae'n amser digon caled
 Ar Ynyr Bwlch y Frân ;
 Mae ganddo lon'd ei dŷ o blant,
 A rheiny'n ddigon mân.

Dafydd.

Mae cyfoeth yn dylifo
 I Ogo'r Gareg Walch ;
 Rhaid i ni gofio'r gŵr tylawd,
 Er gwaetha'r brenin balch.

Y Ddau.

Oherwydd trais a gormes
 Arglwyddi mawr ein gwlad,
 Cymylau duon dial sy'n
 Ymgodi fel i'r gâd.

Sierlyn.

Dygasom fintai fechan
 O ddefaid Ty'n-y-ddol,
 Mae Sion yn erfyn am i ni
 Ro'i naw o rheiny'n ol.

Dafydd.

A gwnewch y rhif i fynu
 O gorlan Pen-y-lan,
 Os ydyw'r gŵr yn cwyno fod
 Ei amgylchiadau'n wan.

Y Ddau.

Oherwydd trais, &c.

Sierlyn.

Mae pedwar swyddog sirydd
 Ar eiddo Llwyd y Rhyd,
 Am iddo fethu talu'r dreth
 Nes iddo werthu'r ŷd.

Dafydd.

Wel, dyn a helpo Hywel,
 Mae'r dreth o hyd yn drais :
 Mae'n resyn fod un Cymro eu
 Yn talu treth y Sais.

Y Ddau.

Oherwydd trais a gormes, &c.

Cydgan.

Ymguddiwn dan gysgodion gwŷdd
 Ar lan y ffrwd yn sibrwd sydd,
 A distaw fel ei murmur mwyn
 Y gwyliwn,—llechwn yn y llwyn.
 Beth yw y sŵn yn môn y gwynt ?
 Sŵn carnau meirch ar hoew hynt !
 Pob llaw i garn y gloew gledd,—
 I lwydd a bywyd neu i'r bedd.

Y GWYLLIAID YN DYFOD A CHADIFOR, UN O ARGHWYDDI'R
 CYFFIN, I MEWN YN GARCHAROR.

Cydgan.

Pum' pwrs yn llawn am dy fywyd, pan gawn
 Dy ollwng yn rhydd yn ebrwydd a wnawn ;
 Hyd hyny, cedwir di mewn lliest yn y llwyn ;
 Os nad oes yno win a medd i noddi meddwl mwyn,
 Cei arlwy helpa iach, mewn lloches gynes, gu,
 A gwely brwyn i orwedd yn ein diddos barlwr du.

Can—Dafydd ap Siencyn.

Mi fu'm yn filwr ffyddlon am lawer blwyddyn faith,
 Yn atal rhawd gelynyion drwy Gymru ar eu taith
 Dros freiniau hen Gaerhirfryn—digyflog oedd ein gwaith :
 Ond cedwais i gadernid yr Eryri.
 Eryri, Eryri, 'rwy'n caru glân aberoedd yr Eryri,—
 'Roedd ceryg ateb Cymru yn parablu'r estron iaith
 Pan gedwais i gadernid yr Eryri.

DYFODIAD CENAD.

Cenad.

Ar lan y Gynwy gwelais goedwig fyw !

Dafydd.

I'r gâd! i'r gad! ein brwydyr olaf yw,—
I fur dwyreiniol Caer Eryri'r awn,
Ac yno, herio'r gâd a'r goron gawn.

Cydgan.

Nid ofnwn hagar lun
Yr ellyll mawr ei hun,
Yn nghanol dyfnder maith y nos,
Na wyneb dewr un dyn.
Fe ddown, fe ddown, o'r creigiau certh,—
O'r dudew goed a'r bryniau serth
Dilynwn di a'n bron yn dân,—
A buddugoliaeth fydd y gân.
I'r fflam a'r goedwig werdd ei gwawr,
Y llwyni dyrus a'r derw mawr,
Y llwybrau duon a'r ceimion ffyrdd,
Hyd lanau y Gynwy yn fil a myrdd.
Tân! tân! i'r twyni a'r tân,—
Dyffryn y Gynwy a lysg yn lân!
Fflam ar droed yr allt a roed—
Gorsedd hen frenhines y coed.
Ffaglwn, taniwn, gweithiwn yn mlaen,
Treiddiwn i'r llanerch wyllt a'r waen :
I'r derw oesol a'r ynn yr aeth
Y tân, y cleddyf, y bicell, a'r saeth;—
Tân! tân! ar gynydd bo'r gân—
Dyffryn y Gynwy a lysg yn lân!
I'n milwyr b'o nerth ar singoedd mor serth,—
O'r creigiau mae'r saethau yn sŷo.
I'r Gwyddhil, er gwae, drwy'r mynydd y mae
Taranau y rhyfel yn rhuo;
Gan angerdd y gwŷg, rhwng fflamau a mwŷg,
Amgærau i'r llawr ymollyngant;
A Dafydd a'i wŷr, er dewrion a'u dur,
Yn llang am yr adwy a redant.
Ffaglenau sy'n dwyn pob lloches a llwyn
I ddinystr,—a chwâl yr uchelion :
Mae'r frwydyr yn troi, a'r Gwylliaid yn ffoi
Gan adael y maes i'w gelynion.

BREUDDWYD GWRAIG PILAT.

Gwraig Pilat ar ei geneth oedd yn galw,
“ At Pontius dŏs, ’rwyf dan orlethol bwn,
Na foed a wnelo ef â’r Cyfiawn hwnw
Ddaw ger ei fron,—d’wed iddo’r breuddwyd hwn:
Drwy serthoedd sythion Aceldama’n crwydro
Mewn breuddwyd nos, O Nesta, bu’m yn awr;
Ac â thremrithiau erchyll bu’m yn brwydro
Drwy gydol nos, nes canodd cloch y wawr.
’Roedd Moloch wedi ail gyfodi allor
Yn Nyffryn Tophet,—clywais ddawns a chân
O gylch y ffwrnais lân, ac o’r agendor
Cri egwan baban o ryw deryll dân.
Drwy serth anhyddring lwybrau fe ddilynais
Ryw gyfrin gyngor i balasdy haf;
A ‘chyngor drwg’ o enau gŵr a glywais,
Fel ‘accen trais,’ a’m calon oedd yn glaf.
Am fynud ymrafaelient, yna’r arian
A dalent am gynllunio magl a brad;
A’r Cyfiawn hwnw welwn wrtho’i hunan
Mewn unig fan yn ymbil ar ei Dad:
Ac yn ddisymwth gwelwn ŵr adeiniog—
Un cyfrwys, corniog—yn eu hanog hwy
I fod yn ddoeth, yn bwyllog, a chalonog,
A chadw ’u clod yn wyrdd byth bythol mwy.
‘Gofelwch,’ meddai ef, ‘er cario’r cynghaws,
Am dystion da, pe na b’ai dim ond dau,—
Gwyr Ysgrythyrol, er mwyn dallu’r lluaaws,
Rhag ofn i PILAT geisio’i gyfiawnhau.’
Aeth enw PILAT fel y saeth i’ m calon,
Y bryn agorai, grynai, dan fy nhraed;
A gwelwn yno lengoedd o ellyllon
O’r llawr yn codi, ac yn gwaeddi ‘Gwaed.’
O gwmwl tywyll gwelwn loer yn codi,
Crynedig dorf a syllai arni’n sŷn,
Aeth holl Jerusalem i edrych arni,—
’Roedd enw PILAT ar ei gwyneb gwyn.

"Drwy'r gwyll y gwelwn gyrph y meirw'n rhodio,
 Ac i'r heolydd prysur yn cyfeirio ;
 Rhai adnabyddus yn y ddinas oeddynt,
 Di-waed feddrodol deneu gnawd am danynt,—
 Rhyw las oleuni dyeithr dreiddiai drwyddynt ;
 Gwelwn wynebau sŷn yn syllu arnynt,
 A blew eu cnawd gan ofn a safai'n syth !
 I'w cynnefinol artref gynt nid elent,
 Eu llygaid ar fyd arall pell a syllent,—
 Brudd-dremiol dyrfa nad anghofiaf byth.

"A gwelwn ŵr yn gwibio drwy'r galanas,—
 Wallgofus ŵr,—a'i lusern yn ei law ;
 Yn bloeddio 'Gwae y ddinas, Gwae y ddinas,
 Rhyw ddiwedd drwg i'r ddinas hon a ddaw.'

"Newidiodd yr olygfa,—cysgod lleuad
 Ar haner nos serenog welais i—
 Lloer-ddeial Caiaphas yr Archoffeiriad
 A dafiai'r cysgod ar ein palas ni.
 Ymrafael rhwng Iuddewon a Rhufeinwyr
 A thinc tarianau glywais yn y tŵr ;
 Ac i'r Dadleudy mintai o derfysgwyr
 Oedd yno'n arwain y diniwed Wr.
 A gwelwn Hwnw'n sefyll rhwng y brawdwy'r,
 Yn wael ei wedd, dan anmharch, gwawd, a sŷn :
 Heb yngan gair yn erbyn ei gyhuddwyr
 A ddygent gam-dystiolaeth ar ei ben,—
 Fel rhosyn wedi ei guro gan ystormydd,
 A'i flod-ddail gwasgaredig hyd yr ardd ;
 Ac er fod arno nôd y chwerw dywydd,
 'Roedd ar ei wedd dirionwch hoff a hardd.
 Rhwng y colofnau,—clorian aur Cyfiawnder
 A welwn i yn syrthio'n chwilfriw mân :
 Ac o'r malurion yr ehedai gwiber,
 A'i cholyn fforchog oedd yn fflam o dân ;
 Am wddf y Rhaglaw gwelais hi'n ymglymu,
 Ac ymddisgleiria'r symudliwiol gèn
 O gylch ei fwnwgl ef wrth ymddolenu,
 Ac ar ei fynwes y gorphwysai'i phen.

Ar wedd y Cyfiawn gwelwn gyfnewidiad—
 O Nesta ! Duw edrychai drwy ei drem !
 Nes gwywai'r llys o dan y fath edrychiad,
 Fel tyner wýdd dan ddeifiol awel lêm,
 Am enyd fêr,—ac yna dan gernodiau
 Y gwelwn Ef, a chorsen yn ei law ;
 Rhag edrych ar ei warth a'i ddiodefiadau,
 Duodd yr haul, a'r nef edrychodd draw."

ANTHEM BETHLEHEM.

Beirdd y nefoedd gynt a ganent,
 Wel'd o bell y wylaidd wawr :
 "Seren foreu eglur" welent
 Darfai y tywyllwch mawr :
 Gwylwyr ar y gaer ofynent,—
 "Beth, Wyliedydd, am y nos ?"
 Torodd gwawr a gorfoleddent,
 Wel'd y siriol seren dlos.

Heddyw, cododd Haul Cyfiawnder,
 Wele ddiluw mawr o ddydd
 Yn gorlenwi pob eangder,
 Llawnhewch, holl deulu'r ffydd ;
 Clywir llais y durtur heddyw
 Yn croesawu'r wiwlon wawr ;
 Dechreu amser dedwydd ydyw,
 Ein Gwaredwr ddaeth i lawr.

Clywch orfoledd y bugeiliaid,
 Dan ddylanwad nefol dân ;
 Hon yw accen cân cerubiaid,
 Melus orfoleddus gân :
 Os yn isel yn y preseb
 Ceir y baban hoff ei drem ;
 Drwy ororau anfarwoldeb
 Cenir anthem Bethlehem.

Dewch, wryfon Salem, cenwch,
 Unwch â'r angylaidd gôr ;
 Gyda doethion Dwyrain deuwch,
 Daeth i ben addewid Iôr.
 "Mab a roddwyd i ni" heddyw,
 Yr Immanuel a gaed :
 Brenin y Brenhinoedd ydyw,
 Rhowch goronau wrth ei draed.

"Ganwyd i chwi heddyw Geidwad,"
 Ydyw accen cân y côr ;
 Cân dragwyddol ei hymlediad,
 Chwyddo mae o fôr i fôr :
 Os yn isel yn y preseb
 Caed y baban hoff ei drem :
 Drwy orielau anfarwoldeb
 Dyblir anthem Bethlehem.

Chwythed yr awelon hyfryd
 Drwy bob goror is y nef,
 Fel y gorfoleddo'r hollfyd
 Yn ei iachawdwriaeth ef.
 Bydd yn llawen iawn, Ferch Seion,
 Ymddyddana yn dy Dduw ;
 Chwydda'r anthem i'r uchelion,
 Dy Waredwr cadarn yw.

ODLAU BETHLE'M.

Efengyles, dring i fynu,
 Dring i ben y mynydd mawr ;
 Pâr i Seion orfoleddu,
 Ei Gwaredwr ddaeth i lawr ;
 Rhedwch, gloffion, i'w gyfarfod,
 Clywch, fyddariaid, lais y nef: Haleliwia !
 Cenwch, fudion, gân ddiddarfod,
 Chwîthau, ddeillion, gwelwch Ef.

Fryniau oesol, ymostyngwch,
 Seion, clyw, mae Duw yn d'od ;
 Holl glogwyni Canaan, cenwch,
 A'r wybrenau glyw ei glod.
 Daw o'r anial ffrwd yn trydar,
 Daw o'r moroedd lafar lef : Haleliwia !
 Nefoedd a gwaelodion daear
 Lawnychant ynddo Ef.

Dewch, fugeiliaid Bethle'm, cenwch,
 Unwch gyda'r nefol gôr ;
 Gyda doethion Dwyrain deuwch,
 Daeth i ben addewid Ior,—
 Anwyl Fab y Duw goruchel
 Yn y preseb heddyw gaed : Haleliwia !
 Plygwch ger ei fron yn isel,
 Rhowch goronau wrth ei draed.

Awel gyflym gluda'r newydd,—
 Dros y moroedd pell yr aeth :
 Caed Messiah 'n Ninas Dafydd,—
 Silo'r hen addewid ddaeth.
 Wele Haul Cyfiawnder eglur
 Wedi dwyn tra'gwyddol wawr : Haleliwia !
 Gorfoledda, wael bechadur,
 Ganwyd y Gwardwr mawr.

HEN DELYNOR OLA'R GÂD.

Ar ol cyffafan beirdd fy ngwlad,
 'Roedd hen Delynor ola'r gâd
 Yn gwylio'r adwy gul a serth
 Uwchben rhaiadrau'r Gonwy gerth :
 Mintai fechan wan o wŷr
 Oedd yn sefyll iddo'n bur,—
 A'u calonogi'n erbyn brad
 Wnai hen Delynor ola'r gâd.

Os oedd ei wallt fel ewyn llyn,
 Yr oedd y bardd yn hardd er hyn—
 Yn gadarn dŵr, yn ŵr o nerth,
 I sefyll ar y dibyn serth :
 Mewn peryglon o bob rhyw,
 Ac enbydrwydd, 'roedd yn byw ;
 Yr olaf oedd o gewri'r wlad,
 A hen Delynor ola'r gâd.

Ac fel yr oedd yn tynu tân
 Gwladgarwch byw o'i dannau mân ;
 Ei frwd ryfelgan daniai fron
 Y Cymry dewr i'r ymgyrch hon ;
 Weithiau'n llawen, weithiau'n brudd,
 Fel 'roedd Cymru'n colli'r dydd,—
 " Pa beth a ddaw o'n hanwyl wlad ? "
 Medd hen delynor ola'r gâd.

Pan oedd efe ar gyfyng awr
 Ar dafu'r delyn hoff i lawr—
 Rhag ofn i'r estron gyda gwên
 Halogi tannau'r delyn hen—
 Gwelai Gymry'n dod i lawr
 Fel rhaiadrau'r mynydd mawr :
 " Ymwared ! " meddai, " creigiau'n gwlad
 I hen Delynor ola'r gâd. "

I Gwilym Cowlyd, ar beroriaeth Andro Fychan.

ARFERION CYMRU FU.

ADRODDGAN.

Pan fyddai hi'n dawel ar Gymru lân,
 A'i hen delynorion yn eilio cân ;—
 Canu penillion, a chwareu crwth,
 Glywid yn mhob rhyw balas a bwth ;

Draw ar y mynydd ar doriad y dydd,
 Ymlid y bela, neu hela yr hydd :
 Dilyn yr helfa mor gyflym a'r gwynt,—
 Dyna oedd arfer hen Gymru gynt.

Pan fyddai'r gwlaw yn llifeirio'n hy',
 Chwiban yr awel yn muriau'r tŷ ;
 O mor gysurus oedd aelwyd lân
 Gyda'r hen Gymry o flaen y tân !
 Drws yn agored i ŵr ar ei daith,
 Cynal elusen a choledd yr iaith ;
 Codi'r tylawd o'i gyfyngder du,—
 Dyna oedd arfer hen Gymru gu.

Hen ŵr y gornel, a'i wedd yn llon,
 Ddifyr chwareuau â phen ei ffon
 Wrth adrodd hanesion hen oes o'r blaen,—
 Bwganod y bryn a thylwythion gwaen ;
 Eraill yn gardio a thrin y gwlan,
 Cadw'r hen aelwyd yn glir a glân ;
 Son am ryfeloedd yr oes a fu,—
 Dyna oedd arfer hen Gymru gu.

Caws, ymenyn, a cheirch, a haidd,
 Uwd a llymru, enwyn a maidd :
 Arlwy amaethol, nid arfer moeth,
 Na seigiau breision i'r Cymro doeth ;
 Rhedeg a neidio a thafu maen,
 Ymlid ysbeilwyr o gwm a gwaen,
 Dal y cyflymaf o geirw'r ddôl,—
 Dyna wnai Cymry hen oesau'n ol.

Pan fyddai priodas mewn tref neu lan,
 Elai gwahoddwr o fan i fan,—
 Deuai lodesi o ddôl a glyn,
 Hafod a lloest a bwthyn gwyn ;
 Hon oedd eu harfer o hyd o hyd,—
 Cynal eu defod o ddechreu byd :
 Arlwy priodas a rhoddion cu,—
 Dyna oedd arfer hen Gymru Fu.

Pan godai cwmwl mor ddu a'r nos,
 Pan fyddai gelyn ar gŵr y rhos;
 Anfon y corn i gyhoeddi cād,
 Cynull y dewrion a chodi'r wlad:
 Gadael yr aradr, gadael yr ôg,
 Gadael y praidd rhwng y creigiau crog:
 Uno'n y fyddin yn gadarn lu,—
 Dyna oedd arfer hen Gymru Fu.

Y GWRTHDARAWIAD.

Hebryngodd ef i'r orsaf draw,
 A'i mynwes oedd yn brudd;
 Os gwenodd hi wrth ysgwyd llaw,
 'Roedd deigrin ar ei grudd.
 Ar ol ymado'n drist ei bron,
 Dywedai, "Boed i'r nef
 Ddwyn eto'n ol fy machgen llon,—
 Dof i'w gyfarfod ef."

Beth yw y waedd o lan y môr,
 A'r newydd ing yn awr!
 Y gwrthdarawiad erch a'r tân,
 Y brys a'r cyffro mawr?
 Ond hi ni wŷr, a chanu mae—
 (Ni chlyw'r alarus lef)
 "'Rwy'n caru'r trên a'i dwg yn ol,—
 Af i'w gyfarfod ef."

Y newydd aeth a'i synwyr hi,
 Gwallgofus grwydro mae
 Bob hwyr a boreu tua'r trên,
 Heb wybod am ei gwae;
 Hi glyw y chwiban—gwena'n llon—
 Prysura drwy y dref:—
 "Hwn yw y trên a'i dwg yn ol,—
 Af i'w gyfarfod ef."

BUGAIL BACH Y MYNYDD MAWR.

I mi mae'r Mynydd Mawr
 A'r clogwyn serth ysgythrog ;
 I mi mae'r llenyrch gwyrdd eu gwawr
 A'r trumau crebach cribog ;
 I mi daw geneth fwyn,
 A'i chân o'r llwyn i'm lloni ;
 I mi y llam rhaiadrau lli
 A ffrydiau dirifedi.

I mi mae'r helfa hir
 Drwy'r anialdiroedd dyrus ;
 I mi mae mêl blodionog lwyn
 A'r diliau mwyn hudolus ;
 I mi mae'r cryglus pêr
 A seirian ser wybrenau,
 Bugeilio praidd y mynydd serth,
 A dringo'i gerth agenau.

I mi mae cân y gôg
 Ac egwan grêg yr oenig ;
 I mi mae adsain creigiau crog
 A swyn y fwyn afonig ;
 I mi mae'r gauaf du,
 A rhu'r ystormydd gerwin ;
 I mi mae oerfel Ionawr blin
 A hafaidd hin Mehefin.

 CWSG, FY ANWYLYD.

HUNGAN.

Cwsg, fy anwylid, mae gwllith ar y rhos,
 A'r awel yn oer dros y lli ;
 Cwsg, mae y lloer o dan amrant y nos
 Yn edrych i lawr arnat ti.

Sér a phlanedau a huliant y nen,
Edyn yr hwyr a gysgodant dy ben,
Engyl y nefoedd a'th wylant, fy Ngwen,
Gan edrych i lawr arnat ti.

Cwsg, fy anwylyd, mae anian mewn hûn,
A'i phen ar obenydd yr hwyr;
Breuddwyd anwyldeb yw tegwech dy lun,
Ti ddygaist fy nghalon yn llwyr.
Sér a phlanedau, &c.

Drwy'r nos, mae'r eos, a'i haccen fel haf,
A'i hodlau'n llawn swynion y sydd
I'th sîo mewn serch, aeth fy enaid yn glaf
O gariad am doriad y dydd.
Sér a phlanedau a huliant y nen,
Edyn yr hwyr a gysgodant dy ben,
Engyl y nefoedd a'th wylant, fy Ngwen,
Gan edrych i lawr arnat ti.

SLEEP, MY BELOVED.

A LULLABY.

*Founded on a Welsh song, written by Eos Bradwen, who is also
the author of the melody.*

Sleep, my beloved, the sun has gone down
In splendour, to sleep in the West;
Nature is silent on mountain and mead,
The ocean is lull'd into rest;
Bright are the stars and the planets on high,
Soft are the breezes that whisper and fly;
Sweet are the angels that gladden the sky
While keeping their watch over thee.

Sleep, my beloved, may innocence guard
A maiden so gentle and meek;
Sleep, my beloved, let nature restore
The blush of the dawn on thy cheek:
Bright are the stars, &c.

Sleep, my beloved, the beams of the moon
 Bespangle the shadows of night ;
 Dewdrops are breathing their love to the rose,
 Enjoying a feast of delight :
 Bright are the stars, &c.

TALHAIARN.

DYFFRYN CLWYD.

Seren y wawr, mor siriol wyd,
 Tywyns i lawr ar Ddyffryn Clwyd ;
 Llon dŷr y dydd, ar fŷr y daw,
 Ymado'n brudd, a siglo llaw,
 A mynwes lawn 'rwy'n myn'd i ffwrdd :
 Pwy wŷr a gawn byth eto gwrdd ?
 Haul melyn gwyd i'r nen mewn bri ;
 O! Ddyffryn Clwyd, ffarwel i ti.

Baradwys hardd, lle cynar wlith
 Ar flodeu gardd a'r tewlwyn brith,
 Dywed a wêl dy ffrydiau clir,
 Am ŷd a mêl dy dawel dir ?
 Perllanau llawn, a mêdd yn lli,
 Sy'n enyn dawn dy dannau di ;
 Pwy heno gân yn llon eu nwyd,
 O gylch y tân yn Nyffryn Clwyd ?

O dyrau caer Moel Fama cwyd
 Aberoedd claer a dyfroedd Clwyd ;
 O fryn a dôl, a'm bron yn iach,
 Y down yn ol i'm bwthyn bach.
 Mor brudd yw'm bron fro hinon ha',
 Mae'm bád ar dôn a'm boreu da :
 Adgof a ddaw, hiraeth a gwyd,
 Minau'n mhell draw o Ddyffryn Clwyd.

RHODRI'R DEWR.

ADRODDGAN.

- 'Roedd Rhodri'r dewr o bell yn canu ffarwel
 A'i neuadd wag, â'i enedigol wlad,
 A golosg dinystr du gweddillion rhyfel,
 A hen gartrefi dedwydd ty ei dad.
- 'Roedd sw'n telynau yno yn dystewi,
 A phrudd-der yn y bwth a'r palas mawr;
 'Roedd llais llawenydd drwy yr holl Eryri,
 Fel yspryd ein cyndadau'n myn'd i lawr.
- "Fe dorodd gwawr," medd ef, "a haul Mehefin
 "Yn gallu gwenu ar y dinystr du;
 "Cyn bydd ei daith i wely llaith Gorllewin
 "Yr hwyliaf finau'n mhell o'm cartref cu.
- "Pa le mae'r bardd? Pwy heno gân y delyn
 "I loni'r wledd Wyl Ifan hirddydd ha'?
- "Mae awr lawenydd wedi dod i derfyn:
 "Hen Gymru wyllt fynyddig—boreu da.
- "Yn iach i afiaeth odiaeth llwyn llawenydd,
 "A'r Castell mawr, lle byddai'n câd yn cwrdd;
- "Yn iach i hirnos gauaf Cymru ddedwydd,
 "A'r chwedlau difyr aent o gylch y bwrdd.
- "Ffarwel i ludw'r goedwig fawr a gerais,
 "A thros y waen lle bu dyffrynoedd iach;
- "Hen lwybrau mebyd ganwaith gynt a rodiais,
 "A'r helfa wyllt dros gamfa'r bwthyn bach.
- "Mae'n rhaid i mi ymadael, gwmwd garw,
 "Fawreddog drem, cartrefle hion ha'!
- "Ochenaid ddaw, ac anwyl hyd fy marw
 "Hen greigle gwyllt fy mebyd—boreu da.
- "Ffarwel hen fardd, a ffarwel i dy delyn,—
 "Dy gofio 'rwyf er pan wy'n cofio dim;
- "O lys i lys, mor ddifyr oedd dy ganlyn:
 "Mae'r hen alawon byth yn anwyl im'.
- "Tyred, fy ngeneth hoff, paid, paid ag wyllo,
 "Mae'r llong ar dôn, a'r hwyliau yn y gwynt,—
- "Pwy ddybla'r gân a'r anthem hwyrol heno,
 "A'r hen benillion anwyl ganem gynt?
- "Hen furiau'r neuadd dremiant ar eu gilydd,
 "Er cof am grwth a thelyn, mam a thad;

"O'r castell uchel mawr ar erchwyn mynydd
 "Ni chlywir gwledd llawenydd cedyrn câd.
 "Awn heibio i lan y ffrwd a'r ffynon loew,
 "Adgofion mebyd ar ochenaid chwâ
 "A ddaw a hiraeth ar nawn Hefin hoew,—
 "Gartrefi dedwydd Cymru—boreu da."
 Fel yna Rhodric oedd yn canu ffarwel
 A'i gartref hoff a'i enedigol wlad,
 Pan glywai yn y gwynt sŵn corn y rhyfel—
 Hen gorn buelin, Hirlas Cymru fad :—
 "Ha !" meddai ef, "y mae gelynyion eto
 "I'n cymoedd ni, a rhyfel yn y gwynt :
 "Clyw, Elen! clyw! lueddwyr Cymru'n bloeddio
 "O'r creigiau crog, lle bu ein brwydrau gynt.
 "Nid buddugoliaeth, anwyl eneth, ydyw,
 "Ysywaeth, rhyw ymdrechfa sydd ar droed :
 "Corn Eidiol ydyw, gwn ei accen hyglyw,—
 "Mi a'i cofiaf er ein brwydr gynta' rïoed.
 "Ffarwel, fy merch! Pa fodd dydi adawaf
 "Yn ddiamddiffyn, yn amddifad fach
 "Ddigartref? Rhoad y nef ei nawdd anwylaf,—
 "Delw f' Eluned hoff,—rhaid canu'n iach!"
 Distewch, Sacsoniaid anwar, clywch o'r entyrch,
 Er nad yw mintai yr Eryri'n gref,
 Mae Rhodric wedi troi yn ol i'r ymgyrch,—
 Adar ysglyfaeth a'i dilynant ef!

BENDITH Y MILWR.

"Briod anwylaf yn y wlad,
 Paham mae dy rudd mor welw?
 Clyw, fy Eluned, gorn y gâd—
 Hen gorn y gâd yn galw!
 A thithau, fy maban teg dy wawr,
 Daeth chwerwaf awr gwahanu;
 Dyma 'nymuniad yma'n awr,
 Yn sŵn y corn yn canu :—
 Rho'ed y nefoedd wen
 Ei bendith ar dy ben;

Pan i'r gâd, fel dy dad, y doi di,
Ymladd yno dros dy wlad
A'i hen annibyniaeth hi."

Dywedai y Milwr :—"Cawn eto gwrdd—
Duw a ofala am danom."

Yna ffarweliodd, ac aeth i ffwrdd,

I hyf wynebu'r ystorom :

Gwenai'r fam, er maint y pwn,

Ar ei baban hoew ;

Syrthio ar ei wyneb crwn

Wnai y deigr yn gloew.

"Rho'ed y nefoedd wen

Ei bendith ar dy ben ;

Os i'r gâd, fel dy dad, yr ei di,

Ymladd yno dros dy wlad

A'i hen annibyniaeth hi."

Syrthiai'r Milwr dan ei glwy',—

Cwymodd ein Llewelyn ;

Annibyniaeth Cymru mwy

Fathrwyd gan y gelyn :

Lleddf adseiniai'r brynau bân

Farw hedd a rhyddid ;

Eto'r fam, i'w baban gwan,

Ganai yn ei gofid :—

"Rho'ed y nefoedd wen

Ei bendith ar dy ben ;

Os i'r gâd, fel dy dad, yr ei di,

Ymladd yno dros dy wlad

A'i hen annibyniaeth hi."

Y SIACED WEN.

Yn ngwlad y brynau pwy sydd ben,
Fel y gŵr sydd yn gwisgo'r Siaced Wen?
Taranu mae'r clogwyni certh,
A bryn a dyffryn deimla'i nerth :

Ei ebill miniog weithia'i ffordd,
 A'r byd sydd yn teimlo pwys ei ordd.
 Pa wr gwladgarol faidd ro'i sèn
 I'r gŵr sydd yn gwisgo'r Siaced Wen.

Yn foreu, foreu—gyda'r wawr—
 Fe'i gwelir ef ar ei glogwyn mawr ;
 A sŵn, a sŵn ei arfau sydd
 Rhwng creigiau'n clecian oriau'r dydd.
 Fe ddaw pob ardal is y nef
 I ganmawl ei ddiwydrwydd ef :
 Nid oes mwy diwyd is y nen
 Na'r gŵr sydd yn gwisgo'r Siaced Wen.

Pan fyddo cnwd o eira gwyn
 Yn hulio'i fwth ar ael y bryn,
 Bydd ef, er oered hinon laith,
 Ac er peryglon, wrth ei waith.
 'Rol llafur diwyd foreu a nawn,
 Ei gyflog bach sy'n deilwng iawn ;
 Fe ddaw'r nos Sadwrn ola' i ben,—
 Fe dreulia'i oes fel y Siaced Wen.

Dros bob iawnderau deil yn dŷn,
 Fel y Beibl mawr yn ei fwthyn gwyn ;
 Ac fel y graig o dan ei droed,
 Bu'n gadarn dros ei hawl erioed.
 Mae'n caru ei wlad, mae'n Gymro pur,
 Wrth drin y graig efo'i ebill dur :
 Ac mewn dyngarwch, pwy sydd ben,
 Fel y gŵr sydd yn gwisgo'r Siaced Wen.

Y FFUG-FONEDDWR.

ADRODDAWD.

Os oes ar ysgwydd y Wyddfa wen
 Rywbeth yn deilwng o'i huchel ben,
 Os oes yn Meirion ryw le mawreddog
 Yn nghanol ei bryniau serth llechweddog,

Hon yw yr adeg i'n creigiau certh,
 A'n gwyllt raiadrau ddangos eu nerth,
 A ninau ymdrwsio mewn dawn a dysg,—
 Mae Fflug-foneddwr yn d'od i'n mysg.

Mewn trê'n cyffredin i'n gorsaf wael,
 Mor hunan-ymwadol yw'r teithiwr hael,
 Yn gosod i lawr ei droed urddasol
 Ar le mor Gymreig ac anmhwyrpasol :
 Lle nad oes ond swp o Gymry gwledig
 I dderbyn boneddwr mawr dysgedig ;
 Lle clywir accenion yr hen iaith ffol
 Sy'n cadw Gwyllt Walia mor bell ar ol.
 Mae eisieu dysgu'r hen Gymry gwirion
 Anghofio'r hen iaith a'i henwau hirion—
 Ei "Llanfairpwllgwyngyll" mor gras, mor groc
 "Ger-trobwl-Tysilio" a'i "gogo-goch :"
 Pa fodd y disgwyliwn i benedfigion
 Hoffi'r Eryri na Cheredigion,
 Tra byddo'r hen Gymry di-foes, di-ddysg,
 Yn siarad Cymraeg pan ddaw ef i'n mysg ;
 A hyllach i Gymro yw llygadrythu
 Ar het lle mae'r iaith Hebraeg yn nythu.

Gallasai'r boneddwr anghofio'n hawdd
 Y wlad a ddaeth heddyw o dan ei nawdd ;
 Pan anrhydeddir Cymru fach
 Gan ŵr bonheddig o uchel âch ;
 A'i llwybrau ceimion gan rasol draed
 Ymwelydd o benedfigaidd waed.
 Gallasai ro'i tro i'r gerddi gwyrdion
 Sydd dros lasdônau pell yr eigion :
 Cymeryd rhyw wibred mwy *continental*,
 Lle mae afonydd mwy *oriental*.
 Gallasai boneddwr o'i doriad ef
 Addurno cymdeithas pigion tref,
 Brenhines y Ffasiwn a'i boneddigesau,
 A gweision mwy lifrol i wneyd ei negesau.
 Florence, neu Venice a'i phleserfadau,

Yn hytrach na dyfod i wlad ein tadau :
 Lle nad oes ond creigiau certh yn codi,
 A sych brydyddion yn pererindodi.
 Ond fel mae angylion ambell dro
 Yn d'od ar ymweliad a'n tawel fro :
 Felly nid ydyw y bendefigaeth
 Am lwyf anghofio ein creadigaeth.


Mae'n holi'r arweinydd, oedd rhywbeth o werth
 Ei sylw urddasol yn Nghymru serth ?
 Pa le'r oedd y wlad?—ni welsai efe
 Ond bryniau'n cyfodi hyd y ne'.
 "Gormod o wlad," meddai'r Cymro iach,
 "Gormod o dir sydd yn Ngwalia fach :
 "Mae'n rhaid ei gyfodi'n bentyrau diri",—
 "Dyna yw arfer ein cenedl ni,—
 "Cyfodi'r holl dir yn fydylau mawr
 "Pan fyddo boneddwr yn dyfod i lawr."

Gobeithiwn fod yn Nghymru lonydd,
 Ei gwyllt raiadrau a'i hafonydd,
 Ei glynoedd cloron a'i chreigiau erch,
 Rywbeth yn deilwng o'i sylw a'i serch ;
 Ac na fydd i'r bwlech na'r cwm rhuadwy,
 Na'r dyfnder agor ei safn ofnadwy,
 Na'r graig anfoesgar ddangos ei danedd
 Pan fo'n myn'd heibio wr o fonedd ;
 Ac na fydd i'r Gogarth ddangos ei drwyn,
 Nac Yspryd y Gorallt adrodd ei gwyn.
 Wrth wyntoedd cynhyrfus môr y Werydd,
 I'w yru yn ol, fel Harri'r Pedwerydd ;
 Ac iddo ro'i anghlod felddigidig
 Ar ein hen Gymru anorphenedig,
 A Seisnig sên ar wylltoedd Cymru,
 Ein heisteddfodau, ein huwd, a'n llymru ;
 A'n gadael mewn cyflwr mor ddirdefn,
 Fel na ddaw i Gymru byth drachefn.


CYNWYSIAD.

	TUDAL
Pryddest—Y Wyddfa	1
Cantawd—Y Mab Afradlon	2
Pryddest—Y Pentref Mynyddig	2
Cantawd Ddramayddol—Cantref y Gwaelod	4
Opera—Dafydd ap Siencyn	4
Pryddest—Breuddwyd Gwraig Pilat	4
Anthem Bethlehem	4
Odlau Bethlehem	5
Hen Delynor Ola'r Gâd	5
Arferion Cymru Fu	5
Y Gwrthdarawiad	5
Bugail Bach y Mynydd Mawr	5
Cwsg, fy Anwylyd	5
Sleep, my Beloved	5
Dyffryn Clwyd	5
Rhodri'r Dewr	5
Bendith y Milwr	5
Y Siaced Wen	6
Y Ffug-foneddwr	6









3 2044 024 345 548

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.



